



ACHREDU
AMGUEDDFEYDD

MUSEUM
ACCREDITATION

Canllawiau Ategol ar gyfer y
Safon Achredu Tachwedd 2018

Canllawiau ar Achredu

Mawrth 2019

Cynnwys

Dechrau arni

Cyflwyniad	3
------------------	---

Sut mae ymgeisio: canllaw cam wrth gam i'r rhai sy'n ymgeisio am y tro cyntaf ... 4

• Cam 1 Gweld a yw'ch amgueddfa yn gymwys i gael Achrediad ..	6
• Pa gwestiynau i'w disgwyl	6
• Ydych chi'n barod i gwblhau'ch holiadur cymhwysedd?	9
• Cyflwyno'ch holiadur cymhwysedd ...	10
• Asesu	10
• Gweithio Tuag At Achrediad	10
• Os nad ydych chi'n gymwys	10

Cam 2 Penderfynu ar faint eich amgueddfa a pha fath o amgueddfa yw hi ... 11

• Dangosyddion amgueddfeydd annibynnol	12
• Dangosyddion amgueddfeydd awdurdod lleol	13
• Dangosyddion amgueddfeydd prifysgol	14
• Amgueddfeydd cenedlaethol	15
• Amgueddfeydd	15
• Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw	15

Cam 3 Gwneud eich cais am Achrediad 16 |

• Cwblhau'r ffurflen gais	16
• Gwasanaethau aml-safle	16
• Awdurdodau amgueddfa cenedlaethol	17
• Tystiolaeth o gymeradwyaeth	17
• Cael cymorth	18

Iechyd y Sefydliad

Nodiadau canllaw ar gyfer gofynion 1-3 y Safon Achredu

Iechyd y Sefydliad	20
--------------------------	----

Rheoli Casgliadau

Nodiadau canllaw ar gyfer gofynion 4-6 y Safon Achredu

Rheoli Casgliadau	42
-------------------------	----

Defnyddwyr a'u Profiadau

Nodiadau canllaw ar gyfer gofynion 7-9 y Safon Achredu

Defnyddwyr a'u Profiadau	60
--------------------------------	----

Camau nesaf

Sut mae'ch cais yn cael ei asesu

79

• Ymgeiswyr newydd	79
• Ffurflenni'r Achrediad	79
• Dyddiadau cau ar gyfer ffurflenni	79

Y broses asesu

80

Pa fath o asesiadau sydd yna?

81

Pwy sy'n gwneud y penderfyniad dyfarnu?

82

Beth yw'r penderfyniadau gall paneli eu gwneud?

82

Faint mae'n cymryd?

85

Eich llythyr dyfarnu

85

Faint mae'r dyfarniad yn para?

85

Hyrwyddo'ch dyfarniad

86

Beth i'w wneud os ydych chi'n mynd trwy newid sylweddol

86

Gwaredu am resymau ariannol

87

Amgueddfeydd sy'n cael eu lletya

87

Beth i'w wneud os nad ydych chi am gymryd rhan mwyach

88

Telerau ac amodau

88

Adborth a chwynion

89

Rhyddid gwybodaeth a diogelu data

89

Adolygu

89

Cyflwyniad

Y Cynllun Achredu yw safon diwydiant y DU ar gyfer amgueddfeydd ac orielau.

Mae'n helpu pawb sy'n gysylltiedig ag amgueddfa i wneud y pethau iawn, gan helpu pobl i gael mynediad i gasgliadau a'u mwynhau, a'u gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Cynllun Achredu yn gwneud hyn drwy wneud yn siŵr bod amgueddfeydd yn rheoli eu casgliadau'n gywir, yn ymgysylltu ag ymwelwyr, a'u bod yn cael eu llywodraethu'n briodol drwy annog pob amgueddfa ac oriel i fodloni safon gytunedig o ran:

- Sut maent yn cael eu rhedeg
- Sut maent yn rheoli eu casgliadau
- Sut maent yn ymgysylltu â'u defnyddwyr

Mae'r Cynllun Achredu'n cael ei redeg ar gyfer amgueddfeydd ac orielau o bob math a maint ledled y DU. Mae'n cael ei reoli fel Partneriaeth y DU rhwng Llywodraeth Cymru, Arts Council England, Museums Galleries Scotland a'r Northern Ireland Museums Council. Mae ein hymrwymiad cyffredin a'n cyrhaeddiad ledled y DU yn sicrhau bod yr Achrediad yn fwy cydlynol ac effeithiol. Mae'r cynllun wedi braenaru'r ffordd o ran codi safonau amgueddfeydd yn y DU ac mae wedi cael ei ddefnyddio fel model ac ysbrydoliaeth ar gyfer cynlluniau tebyg dramor.

Bydd y nodiadau canllaw canlynol yn rhoi gwybodaeth ymarferol am sut mae cwblhau'r ffurflen Achredu, waeth a ydych chi'n ymgeisio am y tro cyntaf neu'n gwneud cais drachefn. Bydd yn rhoi dolenni i gymorth a chyngor i'ch helpu, a gwybodaeth am sut byddwn yn asesu'ch amgueddfa yn erbyn y Safon Achredu.

Dechrau arni
Technydd y Sefylliad
Rheoli Casgliadau
Defnyddwyr a'u Profiadau
Camau nesaf

Sut mae ymgeisio: canllaw cam wrth gam i'r rhai sy'n ymgeisio am y tro cyntaf

Mae tri cham i'r broses o gwblhau cais am Achrediad os nad yw'ch Amgueddfa'n cymryd rhan yn y Cynllun eisoes. Os ydych chi'n ymgeisydd newydd, bydd angen i chi wneud y canlynol:

Cam 1

Gweld a yw'ch amgueddfa yn gymwys i gael Achrediad

Gweler tudalennau 6-10

Caiff holiaduron cymhwysedd eu hadolygu gan Llywodraeth Cymru, Arts Council England mewn ymgynghoriad â darparwyr Museum Development yn Lloegr, Museums Galleries Scotland a Northern Ireland Museums Council ar gyfer amgueddfeydd ym mhob un o'r gwledydd dan sylw.

Bydd angen i chi gwblhau'r holiadur (sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan y sefydliad sy'n eich asesu) a'i ddychwelyd gyda'r dogfennau perthnasol i:

Cymru

Llywodraeth Cymru

<https://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/museums-archives-libraries/?lang=cy>



England

Arts Council England

<https://www.artscouncil.org.uk/supporting-arts-museums-and-libraries/museums-accreditation-scheme>



Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel

Arts Council England

<https://www.artscouncil.org.uk/supporting-arts-museums-and-libraries/museums-accreditation-scheme>



Gogledd Iwerddon

Northern Ireland
Museums Council

<https://www.nimc.co.uk/>



Yr Alban

Museums Galleries Scotland

<https://www.museumsgalleriesscotland.org.uk/>



Os oes cadarnhad ysgrifenedig bod eich amgueddfa yn gymwys i wneud cais am Achrediad, yna gallwch symud ymlaen i weddill gofynion y Safon Achredu:

Cam 2

Penderfynu ar faint eich amgueddfa a pha fath o amgueddfa yw hi

Mae'r Cynllun Achredu ar gyfer amgueddfeydd o bob maint a math; o'r amgueddfeydd lleiaf sydd dan ofal gwirfoddolwyr i amgueddfeydd cenedlaethol, ond nid yw pawb yn gorfod bodloni'r un gofynion. I sicrhau ein bod ni'n asesu'ch cais yn ôl maint eich amgueddfa a pha fath o amgueddfa yw hi, mae angen i chi gymharu'ch amgueddfa yn erbyn y dangosyddion maint a math.

Gweler tudalennau 11 i 15 am nodiadau canllaw ar faint a math.

Cam 3

Gwneud eich cais

Ar ôl i chi benderfynu ar faint eich amgueddfa a pha fath yw hi, bydd angen i chi ddarllen y nodiadau perthnasol ar gyfer pob rhan o'r safon, fel eich bod yn gwybod pa dystiolaeth sydd angen i chi ei chasglu i wneud eich cais am Achrediad.

Gweler tudalennau 20 i 41 am nodiadau canllaw ar ofynion 1-3 y Safon Achredu – Iechyd y Sefydliad

Gweler tudalennau 42 i 59 am nodiadau canllaw ar ofynion 4-6 y Safon Achredu – Rheoli Casgliadau

Gweler tudalennau 60 i 78 am nodiadau canllaw ar ofynion 7-9 y Safon Achredu – Defnyddwyr a'u Profiadau

Cwblhewch y ffurflen gais ar-lein gan atodi'r holl ddogfennau gofynnol perthnasol. Mae'r porth ymgeisio ar-lein yn cael ei letya gan Arts Council England ar ran Partneriaid Achrediad y DU ac fe welwch ddolenni i'r ffurflen gais newydd, canllawiau ar sut i ddechrau arni a chynghor technegol ar wefan yr Arts Council.

Cam 1 Gweld a yw'ch amgueddfa yn gymwys i gael Achrediad

Pa gwestiynau i'w disgwyl

I fod yn gymwys i wneud cais i'r Cynllun Achredu, rhaid i chi allu ateb 'ydy' i gwestiynau 1-6.

Ni fydd y mathau canlynol o sefydliadau'n cael eu hystyried yn gymwys fel rheol:

- Amgueddfeydd a thai hanesyddol sydd mewn dwylo preifat
- Oriellau masnachol
- Canolfannau gwyddoniaeth
- Safleoedd naturiol ac archaeolegol, adeiladau a safleoedd hanesyddol a diwydiannol, cofebion a chanolfannau treftadaeth heb gasgliadau hirdymor cysylltiedig
- Sefydliadau sy'n arddangos sbesimenau byw, er enghraifft, sŵau a gerddi botaneg
- Gwasanaethau benthyca addysgol
- Lleoliadau ar gyfer arddangosfeydd dros dro nad ydynt yn arddangos casgliadau yn hirdymor
- Canolfannau cofnodion
- Llyfrgelloedd ac archifdai yn cynnwys archifau sain, ffilm a ffotograffau
- Rhith-amgueddfeydd

Rhoddir achrediad i leoliadau amgueddfa unigol (safle/gofod/adeilad ffisegol) yn hytrach na chasgliadau neu wasanaethau.

I wneud cais i'r Cynllun am y tro cyntaf neu ailymgeisio ar ôl cyfnod o beidio â bod yn rhan o'r Cynllun, rhaid i'ch sefydliad fodloni'r meini prawf canlynol:

C1 Ydy'r amgueddfa wedi'i lleoli yn y DU, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel?

Byddwn yn gofyn am gyfeiriad a manylion cyswllt eich sefydliad, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch cais a gweld a yw'r amgueddfa yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun ar sail ei lleoliad.

C2 Ydy'r amgueddfa'n bodloni'r diffiniad o amgueddfa y cytunwyd arno?

'Mae amgueddfeydd yn galluogi pobl i archwilio casgliadau am ysbrydoliaeth, addysg a mwynhad. Maent yn sefydliadau sy'n casglu, yn diogelu ac yn cynnig mynediad i arteffactau a sbesimenau, y maent yn eu dal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cymdeithas.'

Bydd gofyn i chi gadarnhau bod eich amgueddfa'n bodloni diffiniad Cymdeithas yr Amgueddfeydd (1988).

C3 Ydy'r amgueddfa'n safle/gofod/adeilad ffisegol sydd ar agor i'r cyhoedd yn rheolaidd?

Bydd rhaid i chi roi enw a chyfeiriad eich amgueddfa, yr oriau agor a'r wefan (os oes gennych chi un).

C4 Ydy'r cyhoedd yn gallu gweld casgliadau'r amgueddfa ac ymgysylltu â nhw?

Yn yr adran hon gallwch ymhelaethu ar eich ateb i gwestiwn dau – i amlinellu sut mae'ch sefydliad yn cyflawni ei ddiben cyhoeddus.

C5 Oes gan yr amgueddfa gyfansoddiad priodol?

Bydd gofyn i chi roi enw'ch corff llywodraethu. Efallai na fydd enw gweithredu ac enw cyfansoddiadol yr amgueddfa yr un fath. Dylai'r enw a roddir ar gyfer y corff llywodraethu fod yr un fath â'r enw sydd ar y ddogfen lywodraethu.

Rhaid i amgueddfa gael ei llywodraethu gan ddogfen gyfreithiol sy'n rhoi pwerau priodol iddi ac sy'n lleihau'r risg i'r casgliadau yn yr hirdymor. Dyma gyfansoddiad neu ddogfen lywodraethu'r amgueddfa.

Rhaid i'r amgueddfa fod yn sefydliad hirdymor sy'n bodoli er lles y cyhoedd ac i warchod ei hasedau, yn cynnwys casgliadau. Mae pum gofyniad cyfansoddiadol ar gyfer corff llywodraethu'ch amgueddfa:

1. Bodoli er lles y cyhoedd
2. Gallu dangos bod ei chasgliadau a'i hasedau'n cael eu gwarchod yn briodol
3. Gyda phwerau i weithredu amgueddfa a dal casgliadau ac asedau. Rhaid i'r pwerau hyn fod yn dryloyw ac ni ddylai gynnwys y gallu i ddosbarthu asedau neu broffiliau er elw personol
4. Mae'n destun rheoleiddio statudol neu broses farnwrol mewn perthynas â'i hymddygiad
5. Rhaid iddo fod yn endid parhaol gyda diben hirdymor

Bydd angen i chi ddangos bod eich cyfansoddiad yn bodloni'r meini prawf hyn. Bydd angen i chi ddweud hefyd os yw'ch corff llywodraethu'n gweithredu'r amgueddfa yn uniongyrchol neu a oes ganddo sefydliad rheoli ar wahân yn gyfreithiol yn gwneud hynny dan gontract.

Pa fath o gyfansoddiad sydd gan eich sefydliad?

Rhaid i'ch amgueddfa fod â strwythur a dogfennau cyfansoddiadol priodol a derbynol ar gyfer ei chorff llywodraethu. Bydd angen i chi anfon copi o'ch dogfen lywodraethu gymeradwy gyda'ch holiadur wedi'i gwblhau.

Mae'n bwysig gwybod pa fath sydd gan eich amgueddfa. Bydd gofyn i chi ddewis eich math o lywodraethu.

Diffiniad – dogfen lywodraethu

Mae'r ddogfen lywodraethu yn cyfeirio at ddogfen gyfreithiol sy'n amlinellu nodau'r sefydliad ac, fel rheol, sut mae'n cael ei weinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, rheolau, memorandum ac erthyglau cymdeithasu, trawsgludiad, ewyllys, Siarter Brenhinol, cynllun y Comisiwn Elusennau neu ddogfen ffurfiol arall.

Amgueddfeydd annibynnol

Mae'r sector amgueddfeydd annibynnol yn cwmpasu amrywiaeth o sefydliadau sydd â gwahanol drefniadau llywodraethu, ond mae angen i bob un ohonynt gael cyfansoddiad sy'n rhoi'r pŵer iddynt ddal a/neu fod yn berchen ar gasgliad a gweithredu amgueddfa.

Bydd pob un yn cael ei reoleiddio gan un (neu fwy) o'r cyrff canlynol:

- Y Comisiwn Elusennau
- Tŷ'r Cwmnïau (ar gyfer Cwmni Elusennol Cyfyngedig drwy Warant)
- Awdurdod Ymddygiad Ariannol
- Swyddfa'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Budd Cymunedol
- Office of the Scottish Charity Regulator (OSCR)
- Charity Commission for Northern Ireland

Gall amgueddfeydd annibynnol gael eu sefydlu ar sawl ffurf wahanol yn cynnwys Ymddiriedolaeth, Sefydliad Corfforedig Elusennol – sefydliad a chymdeithas (Cymru a Lloegr), neu haen un a haen dau (yr Alban), neu Gwmni Elusennol Cyfyngedig drwy Warant.

Lle mae awdurdod lleol wedi trosglwyddo ei ddarpariaeth amgueddfa i endid annibynnol, yn aml bydd y corff llywodraethu'n cael ei weld fel y grŵp sy'n goruchwylio'r endid annibynnol. Yn yr achos hwn, bydd angen cyflwyno copïau o'r cytundebau ar gyfer y trefniant hwn.

Gallent gynnwys dogfennau fel cytundeb rheoli neu gytundeb lefel gwasanaeth, neu gytundeb benthycas casgliadau. Byddwn yn defnyddio'r rhain i sicrhau bod y ddogfen lywodraethu gywir wedi cael ei chyflwyno.

Mewn rhai achosion, mae'n bosib nad rhedeg amgueddfa yw prif ddiben sefydliad, er enghraifft, Heddlu Dinas Llundain. Yn yr achos hwn, bydd angen i'r corff llywodraethu ddangos cytundeb sy'n cadarnhau bod ganddo'r pwerau i ddal a/neu fod yn berchen ar gasgliad a gweithredu amgueddfa er budd hirdymor y cyhoedd. Bydd angen i chi gyflwyno hwn gyda'ch dogfennau llywodraethu.

Awdurdodau lleol

Bernir bod gan awdurdodau lleol y pŵer i weithredu amgueddfeydd drwy'r Ddeddf Seneddol neu Orchymyn (Gogledd Iwerddon) perthnasol a restrir:

- Cymru a Lloegr: Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964; Deddf Llywodraeth Leol 1972
- Yr Alban: Public Libraries Consolidation (Scotland) Act 1887
- Gogledd Iwerddon: The Museums and Galleries (Northern Ireland) Order 1998

Mae'n bosibl y bydd gan awdurdodau lleol bwerau i weithredu amgueddfeydd drwy Ddeddf Llywodraeth Leol briodol.

Mae angen i awdurdodau lleol wybod y trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer yr amgueddfeydd maent yn eu rheoli, boed drwy'r Ddeddf berthnasol, neu lle mae darpariaeth amgueddfa wedi'i rhoi drwy Ddeddf leol, neu lle mae'r awdurdod yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr i amgueddfa â chyfansoddiad elusennol. Yn achos Cynghorau Tref, Cymuned (Cymru) neu Blwyf byddai angen i'r Prif Awdurdod basio penderfyniad sy'n dirprwyo ei awdurdod o dan y Ddeddf berthnasol. Beth bynnag fo'r trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer yr amgueddfeydd sy'n cael eu rheoli gan awdurdod lleol, bydd angen i ni weld hyn. Gallai fod yn

gopi o gyfansoddiad yr amgueddfa neu gyfeiriad at y Ddeddf Seneddol, Gorchymyn neu Ddeddf Awdurdod Lleol dan sylw.

Mewn rhai achosion, gall amgueddfeydd fod â chyfansoddiad elusen, ac mae'r awdurdod lleol yn gweithredu fel ei hunig ymddiriedolwr. Yn yr achos hwn, byddai angen i ni weld y cytundeb cyfreithiol gan yr awdurdod lleol sy'n grymuso'r ymddiriedolaeth elusennol i redeg yr amgueddfa.

Gall mathau eraill o lywodraethu hybrid fod ar waith, er enghraifft, lle mae awdurdodau lleol yn cadw perchnogaeth o adeiladau a chasgliadau amgueddfeydd ond yn rhoi'r gwaith o'u rheoli i rywrai eraill. Lle mae awdurdod lleol wedi rhoi'r gwaith o weithredu'r amgueddfa i drydydd parti am ffi benodol, ac yn cadw'r cyfrifoldeb am gymeradwyo penderfyniadau polisi, yr awdurdod lleol yw'r corff llywodraethu o hyd. Weithiau gall y trefniadau hyn fod yn fwy cymhleth, er enghraifft, lle mae sefydliad rheoli ar wahân yn gyfreithiol yn gyfrifol am rai agweddau ar yr amgueddfa, gyda rhyddid dros gyfeiriad strategol a chynllunio busnes, ond nid perchenogaeth o gasgliadau na datblygiad casgliadau. Fel y gallwn ddeall eich trefniadau, bydd angen i chi ddarparu copïau o unrhyw gytundebau rhwng yr awdurdod lleol a'r sefydliad rheoli. Gallent gynnwys dogfennau fel cytundeb rheoli neu gytundeb lefel gwasanaeth, neu gytundeb benthycas casgliadau.

Prifysgolion

Dyfernir bod gan brifysgolion y pŵer i weithredu amgueddfeydd. Fel rheol, bydd y ddogfen lywodraethu wedi'i lleoli yng nghylch gorchwyl y pwyllgor perthnasol neu delerau gwaddol neu rodd.

Bydd angen i chi ddarparu copi o'ch dogfen lywodraethu.

Byddwn yn edrych ar drefniadau rheoli ar wahân fel rhan o'ch prif gais. Er enghraifft, eich strwythur rheoli, dirprwyaethau a llinellau awdurdod o'r corff llywodraethu (cyngor y brifysgol neu senedd y brifysgol gan amlaf) sy'n rhoi pŵer i'r corff dirprwyedig reoli'r amgueddfa.

Amgueddfeydd cenedlaethol

Caiff amgueddfeydd cenedlaethol eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth genedlaethol ac maent yn cael eu cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth ganolog neu ddatganoledig. Maent yn cael eu llywodraethu gan Ddeddf Seneddol neu Siarter Brenhinol ac mae ganddynt gyfansoddiad elusennol gan amlaf. Hwyrach mai'r Senedd a basiodd y Ddeddf yw'r corff rheoleiddio, boed yn Senedd y DU neu'n senedd ddatganoledig, yn hytrach na'r Comisiwn Elusennau neu'r Office of the Scottish Charity Regulator.

Ar gyfer amgueddfeydd cenedlaethol, rhaid cyflwyno copi o'ch cyfansoddiad.

Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw

Bydd y gofyniad ar gyfer amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw yn seiliedig ar y mathau o gyfansoddiadau perthnasol y sonnir amdanynt uchod.

C6 Ydy'ch amgueddfa wedi ymrwymo i wneud cais llawn am Achrediad o fewn tair blynedd?

Bydd gofyn i chi amlinellu'r amserlen a'r broses sydd gennych mewn golwg ar gyfer gwneud eich cais am Achrediad. Bydd angen i chi feddwl am sut byddwch chi'n cynllunio'ch amser i gael popeth yn barod. Dylech ymgynffwrdd â'r Safon Achredu a'r canllaw hwn, fel eich bod yn gwybod beth sydd angen ei wneud o'r cychwyn. Byddwch angen amser i ddatblygu'r holl bolisiau a chynlluniau gofynnol a sicrhau bod gennych chi'r cofnodion llofnodedig perthnasol yn barod, a gall hyn i gyd gymryd yn hirach na'r disgwyl. Y ffordd orau o ddangos hyn yw rhoi copi i ni o'ch blaengynllun neu'ch cynllun busnes.

Os nad oes gennych chi flaengynllun neu gynllun busnes hyd yma, bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth ffurfiol sy'n nodi sut rydych chi'n bwriadu gwneud eich cais. Er enghraifft, cofnodion o'ch corff llywodraethu neu bwyllgor

rheoli lle'r ydych wedi trafod beth sydd angen i chi ei wneud ar gyfer cais am Achrediad. Byddwch yn cael cais am eich dyddiad targed ar gyfer gwneud cais. Gallech drafod dyddiad targed gyda'ch darparwr Datblygu Amgueddfa neu Gynghorydd Achrediad lleol. Os cewch gadarnhad eich bod yn gymwys, bydd gennych hyd at dair blynedd i ddarparu cais, felly byddwch yn realistig am faint o amser fydd ei angen arnoch.

Ydych chi'n barod i gwblhau'ch holiadur cymhwysedd?

Os nad yw'ch sefydliad yn bodloni gofynion cwestiynau tri a phedwar eto, er enghraifft, os nad yw'ch amgueddfa wedi agor eto neu os ydych wrthi'n newid eich dogfen lywodraethu, bydd angen i chi gael cyngor gan eich darparwr Datblygu Amgueddfa lleol neu'ch Cynghorydd Achredu. Gweler y cysylltiadau ar **dudalen 18-19**.

Os nad ydych chi'n siŵr o fanylion eich cyfansoddiad, dylech ystyried defnyddio'r canllaw cyfeirio cyflym ar ofynion cyfansoddiadol amgueddfeydd fel rhestr wirio ddefnyddiol. Mae'r canllaw wedi'i gyhoeddi ar wefan Arts Council England.

Gallai'r canllaw eich helpu i weld a oes angen i chi wneud unrhyw newidiadau i'ch cyfansoddiad cyn gwneud cais am gymhwysedd.

Ni allwn gynnig cyngor cyfreithiol, ond hwyrach y byddwch am siarad â chynghorydd cyfreithiol sydd â chymwysterau addas i drafod eich amgylchiadau penodol chi. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau ategol *Museum Constitutional and Governance Arrangements* (gan Dawn Langley, Alchemy Research and Consultancy, ar gomisiwn gan Arts Council England ar ran Partneriaeth Achredu y DU, Tachwedd 2018). Gallwch ddod o hyd i adnoddau llywodraethu eraill yn y dolenni yma:

Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol
<https://www.aim-museums.co.uk/>

Yr Ymddiriedolaeth Casgliadau
<https://collectionstrust.org.uk/accreditation/>

Cyflwyno'ch holiadur cymhwysedd

Mae angen i chi gyflwyno'r dogfennau canlynol ynghyd â'r holiadur cymhwysedd:

- Copi o ddogfennau llywodraethu cyfredol eich amgueddfa
- Copi o'ch blaengynllun neu'ch cynllun busnes neu ddogfennau amgen (fel llythyr gan ymddiriedolwyr ac ati) sy'n dangos eich ymrwymiad i wneud cais llawn am Achrediad o fewn tair blynedd

Gall y rhain gael eu cynnwys fel atodiadau ar wahân neu eu cyflwyno fel dolen we. Byddwch yn anfon y rhain at y sefydliad sy'n asesu'ch Achrediad mewn e-bost. Cofiwch lofnodi'ch holiadur cymhwysedd hefyd.

Asesu

Erbyn hyn byddwch wedi amlinellu'ch amserlen ar gyfer gwneud cais am Achrediad. Nid yw cwblhau'r holiadur cymhwysedd yn gais am statws Achrededig. Mae'n golygu bod eich amgueddfa'n gofyn am gadarnhad eich bod yn gymwys i wneud cais.

O'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi, byddwn yn penderfynu a yw'ch amgueddfa'n gymwys am Achrediad ac os gellir cadarnhau bod yr amgueddfa'n Gweithio Tuag At Achrediad. Os oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol, bydd yr adolygwr yn cysylltu â chi. Byddwch yn cael gwybod canlyniad yr adolygiad o gymhwysedd o fewn chwe wythnos fel rheol. Os bydd eich adolygiad yn cymryd mwy na hyn, byddwn yn cysylltu â chi. Bydd y llythyr neu'r e-bost canlyniad yn cynnwys gwybodaeth am y camau nesaf.

Os yw'ch amgueddfa'n defnyddio neu'n cynnig defnyddio enw sy'n awgrymu ei bod yn un genedlaethol, mae'n siŵr y byddwn yn trefnu ymweliad safle i drafod a yw'n bodloni'r hyn y byddai'r cyhoedd yn ei ddisgwyl gan amgueddfa genedlaethol ac a yw'n briodol. Mae hyn yn golygu y gallai'ch adolygiad o gymhwysedd gymryd yn hirach nag arfer.

Gweithio Tuag At Achrediad

Os yw'ch amgueddfa'n gymwys am Achrediad:

1. Byddwch yn cael cadarnhad eich bod yn Gweithio Tuag At Achrediad a bydd y statws

hwn yn para tair blynedd o ddyddiad eich llythyr cadarnhau.

2. Byddwch yn cael cyfeirnod i'w ddefnyddio bob tro y byddwch yn cysylltu â ni. Bydd y cyfeirnod yn dechrau gyda 'T'.
3. Efallai y bydd gofyn i chi roi diweddariad blynyddol ar eich cynnydd tuag at gais am Achrediad llawn, yn cynnwys unrhyw newidiadau i bolisiau, cynlluniau a/neu ddyddiad targed.

Mae Arts Council England yn cyhoeddi enwau'r amgueddfeydd sy'n Gweithio Tuag At Achrediad ar ei wefan.

Dim ond am dair blynedd bydd eich statws Gweithio Tuag At Achrediad yn para. Os na fyddwch chi'n gwneud cais am Achrediad o fewn y cyfnod hwn, bydd rhaid i ni ailasesu'ch statws.

Cadwch mewn cysylltiad â'ch darparwr Datblygu Amgueddfeydd neu Gynghorwr Achredu os ydych chi'n teimlo na allwch gwblhau'ch cais mewn pryd neu os oes angen cymorth ychwanegol arnoch.

Mae'n bosibl y bydd angen i chi ailymgeisio am gymhwysedd eto os yw'ch corff llywodraethu'n newid yn ystod y cyfnod Gweithio Tuag At Achrediad o dair blynedd.

Gall sicrhau eich bod wedi datblygu'r holl bolisiau a chynlluniau gofynnol a bod gennych y cofnodion wedi'u llofnodi perthnasol i wneud eich cais cyntaf gymryd hirach na'r disgwyl mewn rhai achosion.

Mae llawer o ganllawiau, hyfforddiant, adnoddau a chymorth ar gael i chi. Gweler tudalennau 18-19 am wybodaeth am ffynonellau o gyngor a chymorth i gefnogi'ch cais am Achrediad. Os nad ydych yn cyflogi gweithiwr amgueddfa proffesiynol am dâl a'ch bod angen cymorth Mentor Achredu, mae'n syniad da edrych ar hyn ar ddechrau'r broses.

Os nad ydych chi'n gymwys

Os byddwn yn penderfynu nad ydych chi'n gymwys am Achrediad, byddwn yn rhoi gwybod pam i chi fel y gallwch ddeall beth sydd ei angen a phenderfynu a yw Achrediad yn iawn i chi o hyd. Mae ein canllaw cyfeirio cyflym ar ofynion cyfansoddiadol amgueddfeydd yn rhestr wirio ddefnyddiol os ydych chi'n ystyried unrhyw newidiadau i ymateb i adborth ar gymhwysedd.

Cam 2 Penderfynu ar faint eich amgueddfa a pha fath o amgueddfa yw hi

Yn y nodiadau canllaw sy'n dilyn, rydym ni wedi defnyddio codau lliw ar gyfer amgueddfeydd o wahanol faint a math fel eich bod chi'n gwybod pa dystiolaeth fydd angen i chi ei darparu ar gyfer eich amgueddfa.

Amgueddfeydd annibynnol – mathau 1-3

Amgueddfeydd awdurdod lleol – mathau 1-3

Amgueddfeydd prifysgol – mathau 1-3

Amgueddfeydd cenedlaethol

Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw

Pob amgueddfa

Mae rhai elfennau o'r safon sy'n berthnasol i bob amgueddfa.

Defnyddiwch y dangosyddion yn y tablau canlynol i benderfynu ar faint eich amgueddfa a pha fath yw hi. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn gallu asesu'ch cais yn gymesur.

Mae'r dangosyddion yn ystyried cyllid, nifer ymwelwyr, a gwasanaethau gwahanol fathau o amgueddfeydd sy'n gweithredu yn y DU. Nid ydynt yn rhoi sylw i bob agwedd ar yr hyn mae amgueddfa'n ei wneud (er enghraifft, ni ddefnyddiwyd maint casgliadau).

Nid oes rhaid i'ch amgueddfa fodloni pob un dangosydd ar y raddfa; efallai y gwelwch chi eich bod chi'n cwmpo rhwng dau fath gwahanol. Defnyddiwch eich crebwyll i benderfynu pa set o ddangosyddion sy'n cyd-fynd orau â'ch amgueddfa.

Bydd eich aseswr yn defnyddio'r dangosyddion maint a math i lywio'u hasesiad o'ch amgueddfa. Os ydym o'r farn bod dangosydd arall yn fwy priodol byddwn yn trafod hyn gyda chi fel rhan o'r asesiad ac yn dod i gytundeb ynghylch pa un i'w ddefnyddio fel sail i'r asesiad.

Dangosyddion amgueddfeydd annibynnol

	Math un	Math dau	Math tri
Gweithlu	cael ei gweithredu'n gyfan gwbl, neu gan mwyaf, gan wirfoddolwyr, gyda chymorth Mentor Achredu fel rheol	gweithlu o wirfoddolwyr gan mwyaf gyda rhai aelodau staff cyflogedig, o bosib yn cael cymorth Mentor Achredu	uwch reolwr/reolwyr sy'n cael eu talu, gweithlu sy'n cael ei dalu a gweithlu gwirfoddol
Rheoli	cael ei rheoli'n uniongyrchol gan yr ymddiriedolwyr neu drwy bwyllgor rheoli dirprwyedig	cael ei rheoli'n uniongyrchol gan yr ymddiriedolwyr neu drwy bwyllgor rheoli dirprwyedig	cael ei rheoli gan gyfarwyddwr/rheolwr sy'n cael tâl sy'n adrodd i'r ymddiriedolwyr neu'r pwyllgor dirprwyedig
Cyllideb weithredu	llai na £30,000 y flwyddyn	£30,000-£250,000 y flwyddyn	dros £250,000 y flwyddyn
Agor	oriau agor tymhorol neu ar benwythnosau/ digwyddiadau arbennig neu gydag apwyntiad yn unig lle bo'n briodol (er enghraifft, carchar neu amgueddfa filwrol 'y tu ôl i'r weiren')	tymhorol, neu ar agor drwy'r flwyddyn	ar agor drwy'r flwyddyn, neu oriau agor tymhorol
Cynnig dysgu	darlithoedd/sgyrsiau perthnasol, grwpiau dysgu'n cael eu croesawu ar y safle	cynnig dysgu ffurfiol, cynnig darlithoedd/sgyrsiau/digwyddiadau gan arbenigwyr pwnc	cynnig dysgu ffurfiol i nifer o grwpiau addysgol a grwpiau defnyddwyr, cynnal darlithoedd/sgyrsiau/ digwyddiadau gan arbenigwyr pwnc yn rheolaidd
Nifer ymwelwyr	hyd at 10,000 o ymweliadau â'r safle bob blwyddyn	hyd at 49,999 o ymweliadau â'r safle bob blwyddyn	hyd at 50,000 o ymweliadau â'r safle bob blwyddyn

Dangosyddion amgueddfeydd awdurdod lleol

	Math un	Math dau	Math Tri
Gweithlu	curadur/rheolwr neu gyfwerth proffesiynol sy'n cael ei dalu, gweithlu gwirfoddol	curadur/rheolwr neu gyfwerth proffesiynol sy'n cael ei dalu, gweithlu gwirfoddol	uwch reolwyr, rheolwyr proffesiynol sy'n cael eu talu yn cynnwys curaduron, arbenigwyr dysgu
Safle	un safle neu un o sawl amgueddfa cangen o fewn gwasanaeth	un safle neu un o sawl amgueddfa cangen o fewn gwasanaeth	un safle neu un o sawl amgueddfa cangen o fewn gwasanaeth
Rheoli	cael ei rheoli gan weithiwr amgueddfa proffesiynol sy'n cael ei dalu	cael ei rheoli gan weithiwr amgueddfa proffesiynol sy'n cael ei dalu	cael ei rheoli gan weithiwr amgueddfa proffesiynol sy'n cael ei dalu
Cyllideb weithredu	llai na £100,000 y flwyddyn	£100,000-£500,000 y flwyddyn	mwy na £500,000 y flwyddyn
Agor	oriau agor tymhorol a/ neu ar benwythnosau/ digwyddiadau arbennig	tymhorol, neu ar agor drwy'r flwyddyn	tymhorol, neu ar agor drwy'r flwyddyn
Cynnig dysgu	cynnig dysgu ffurfiol, cynnig darlithoedd/ sgysiau gan arbenigwyr pwnc	cynnig dysgu ffurfiol i nifer o grwpiau addysgol a grwpiau defnyddwyr, cynnal darlithoedd/sgysiau/ digwyddiadau gan arbenigwyr pwnc yn rheolaidd	cynnig dysgu ffurfiol i nifer o grwpiau addysgol a grwpiau defnyddwyr, cynnal darlithoedd/sgysiau/ digwyddiadau gan arbenigwyr pwnc yn rheolaidd
Nifer ymwelwyr	hyd at 30,000 o ymweliadau â'r safle bob blwyddyn	hyd at 99,999 o ymweliadau â'r safle bob blwyddyn	mwy na 100,000 o ymweliadau â'r safle bob blwyddyn

Dangosyddion amgueddfeydd prifysgol

	Math un	Math dau	Math tri
Gweithlu	cael ei gweithredu’n gyfan gwbl, neu gan mwyaf, gan wirfoddolwyr, gyda chymorth Mentor Achredu fel rheol	gweithlu sy’n cael ei dalu a gweithlu gwirfoddol, o bosib yn cael cymorth Mentor Achredu	uwch reolwr/rheolwyr proffesiynol sy’n cael eu talu, gweithlu sy’n cael ei dalu a gweithlu gwirfoddol
Rheoli	cael ei rheoli gan bwyllgor rheoli dirprwyedig neu adran a’i goruchwyllo gan aelod o’r staff addysgu	cael ei rheoli gan bwyllgor rheoli dirprwyedig neu adran a’i goruchwyllo gan aelod o’r staff addysgu	cael ei rheoli gan bwyllgor rheoli dirprwyedig neu adran a’i goruchwyllo gan aelod o’r staff addysgu
Cyllideb weithredu	llai na £30,000 y flwyddyn	£30,000-£250,000 y flwyddyn	mwy na £250,000 y flwyddyn
Agor	tymhorol a/neu ar benwythnosau/ digwyddiadau arbennig/apwyntiad yn unig	tymhorol, neu ar agor drwy’r flwyddyn	tymhorol, neu ar agor drwy’r flwyddyn
Cynnig dysgu	cynnig dysgu ffurfiol o fewn y brifysgol, darlithoedd/sgyrsiau gan arbenigwyr pwnc y tu allan i’r brifysgol	cynnig dysgu ffurfiol o fewn y brifysgol, cynnig i grwpiau addysgol a grwpiau defnyddwyr eraill yn ogystal â defnyddwyr y brifysgol, darlithoedd/sgyrsiau a chyhoeddiadau arbenigol rheolaidd	cynnig dysgu ffurfiol o fewn y brifysgol ac i grwpiau addysgol a grwpiau cymdeithasol defnyddwyr gwahanol yn ogystal â defnyddwyr y brifysgol, darlithoedd/sgyrsiau a chyhoeddiadau arbenigol rheolaidd
Nifer ymwelwyr	hyd at 10,000 o ymweliadau â’r safle bob blwyddyn	hyd at 49,999 o ymweliadau â’r safle bob blwyddyn	mwy na 50,000 o ymweliadau â’r safle bob blwyddyn

Amgueddfeydd cenedlaethol

Mae amgueddfeydd cenedlaethol y DU yn cael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth genedlaethol ac maent yn cael cyllid uniongyrchol gan y Llywodraeth ganolog neu Lywodraeth ddatganoledig.

Rydych chi'n cynnig cyfleusterau ymwelwyr y bernir eu bod yn briodol i sefydliad cenedlaethol, gan ddal a chaffael casgliad o bwys cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn cynnig cyfleoedd ymgysylltu rhagorol drwy arddangosfeydd, arddangosiadau, cyfleoedd dysgu ac ymchwil. Mae disgwyl i chi hefyd gynnig arbenigedd ar eich pynciau penodol i amgueddfeydd, orielau a chasgliadau eraill.

Rhaid i amgueddfeydd cenedlaethol gwblhau cwestiynau ychwanegol. Mae'r rhain yn agor ar y cais ar-lein a'r ffurflen i'w dychwelyd os ydych chi'n dewis 'national' fel eich math o amgueddfa.

Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw

Mae gan y cyhoedd ddisgwyliadau ynghylch amgueddfeydd ag enw cenedlaethol, o ran eu maint, eu cwmpas a'r hyn maent yn ei gynnig i'r cyhoedd.

Pan fyddwn yn cyfeirio at amgueddfa genedlaethol mewn enw, rydym yn golygu un nad yw'n cael ei hariannu'n uniongyrchol gan adran llywodraeth, boed llywodraeth y DU neu lywodraeth ddatganoledig ac nad yw'n cael ei sefydlu gan ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r math hwn o amgueddfa'n hawlio bod ganddi gyrhaeddiad ac ystyr o bwys cenedlaethol ac yn defnyddio un o'r enwau cenedlaethol mewn enw.

Mae'r enwau hynny yn cynnwys y geiriau canlynol neu rai cyfystyr:

Rhyngwladol, Byd, Cenedl, Cenedlaethol, Ewrop, Ewropeaidd, Cymanwlad, Ymerodraeth Deyrnas Unedig, Prydain, Lloegr, Seisnig, Cymru, Cymreig, Yr Alban, Albanaidd, na h-Alba, Ulster, a Gogledd Iwerddon.

Gall amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw fod yn annibynnol neu gael eu rhedeg gan awdurdod lleol neu brifysgol felly nid yw'n ymwneud â math arbennig o lywodraethu. Ym mhob ffordd arall dylent gynnig cyfleusterau, casgliadau a gwasanaethau sy'n cymharu â rhai amgueddfeydd cenedlaethol a ddisgrifir uchod.

Rhaid i amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw gwblhau cwestiynau ychwanegol. Mae'r rhain yn agor ar y ffurflen ar-lein a'r ffurflen i'w dychwelyd os ydych chi'n dweud bod gan eich amgueddfa enw sy'n awgrymu ei bod yn un genedlaethol.

Cam 3 Gwneud eich cais am Achrediad

Darllenwch y canllawiau hyn ac ymgynfeinwch â pha dystiolaeth y bydd angen i chi ei chyflwyno i fodloni gwahanol ofynion yr Achrediad. Rydym wedi llunio rhestr o gamau a allai fod o gymorth i chi wrth wneud cais neu gyflwyno ffurflen:

- Peidiwch â gwneud popeth eich hun! Dylech gynnwys y tîm ble bynnag y mae modd gydol eich gwaith cynllunio
- Siaradwch â'ch Mentor Achredu os oes gennych chi un a chofiwch fod cymorth ar gael gan y sefydliad sy'n asesu'ch Achrediad, eich darparwr Datblygu Amgueddfeydd neu'ch Cynghorydd Achredu.
- Ymgynfeinwch â pha dystiolaeth fydd angen i chi ei chyflwyno i fodloni'r Safon
- Gwrandewch ar gyngor/gofynnwch am gymorth os byddwch yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnoch
- Gwiriwch fod eich polisïau, eich cynlluniau a'ch gweithdrefnau yn gyfredol
- Os ydych chi angen Mentor Achredu, cysylltwch â'r sefydliad sy'n asesu'ch Achrediad, eich darparwr Datblygu Amgueddfa neu'r Cynghorydd Achredu
- Neilltuwch amser i ddiwygio polisïau a chael cymeradwyaeth ffurfiol eich corff llywodraethu

Bydd gofyn i chi wneud eich cais am Achrediad drwy ein system ar-lein. Byddwn yn cynnwys gwybodaeth bellach am sut i fynd i'n system yn y llythyr sy'n cadarnhau eich bod yn gymwys neu'r gwahoddiad i gyflwyno ffurflen.

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddwn yn derbyn ceisiadau copi caled neu drwy'r e-bost a bydd angen cytuno ar hyn o flaen llaw gyda'ch sefydliad asesu perthnasol. Os ydych chi am gyflwyno cais neu ffurflen yn Gymraeg, cysylltwch â Llywodraeth Cymru o flaen llaw.

Gallwch lawrlwytho copi o gwestiynau'r cais i'ch helpu i baratoi o wefan eich sefydliad asesu.

Bydd angen i'ch cais gael ei lofnodi'n electronig gan aelod o'r corff llywodraethu neu gan unigolyn sydd wedi'i awdurdodi i'w lofnodi ar ran y corff llywodraethu.

Cwblhau'r cais ar-lein

Ar ddechrau'r ffurflen bydd angen i chi roi manylion cyswllt eich sefydliad ynghyd â'r categorïau maint a math rydych chi wedi'u dewis ar gyfer eich sefydliad. Byddwn yn gofyn am fanylion cyswllt uwch gynrychiolydd yn ogystal ag enw rhywun i fod yn brif gyswllt i ni yn ystod y broses asesu.

Bydd angen i chi gynnwys eich cyfeirnod cymhwysedd (rhif 'T') os ydych chi'n gwneud eich cais cyntaf, neu rif eich Achrediad os ydych chi'n ymgeisio drachefn.

Gwasanaethau aml-safle

Rydym yn Achredu lleoliadau neu wasanaethau. Os ydych chi'n perthyn i grŵp o amgueddfeydd sy'n cael eu gweithredu gan gorff corfforaethol, fel gwasanaeth awdurdod lleol, yna byddwn yn gofyn i bob amgueddfa gangen unigol wneud cais, neu gyflwyno ffurflen, ar wahân. Os ydych yn rhannu dogfennau gydag amgueddfeydd eraill yn y grŵp, dim ond yr amgueddfa arweiniol sy'n gwneud cais fydd angen lanlwytho'r rhain. Yna gall pob amgueddfa arall groesgyfeirio'r rhain yn eu ceisiadau pan ofynnir i chi lanlwytho dogfen eto. Os ydych chi'n cyflwyno ffurflen, byddwn yn gofyn i chi adrodd ar unrhyw gynnydd yn erbyn y camau gweithredu rydym wedi'u hamlinellu ar gyfer y grŵp o amgueddfeydd a'r rhai sydd ar gyfer eich amgueddfa chi yn benodol.

Awdurdodau amgueddfeydd cenedlaethol

Os ydych chi'n gwneud cais ar ran awdurdod amgueddfa genedlaethol fel English Heritage, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu Historic Environment Scotland, byddwch yn dilyn asesiad dau gam wedi'i deilwra. Yn gyntaf, byddwn yn gofyn i chi gyflwyno ffurflen ganolog sy'n cwmpasu'r elfennau hynny sy'n cael eu rheoli ledled y gwasanaeth fel polisïau a chynlluniau corfforaethol. Os ydych chi mewn eiddo unigol, byddwn wedyn yn gofyn i chi ddarparu fersiwn symlach o'ch cais neu ffurflen sy'n rhoi sylw i fanylion eich safle penodol. Gall eich sefydliad roi mwy o wybodaeth am hyn.

Tystiolaeth o gymeradwyaeth

Ar ffurflen gais yr achrediad byddwn yn gofyn i chi roi dystiolaeth sy'n nodi sut rydych chi'n bodloni pob un o'r naw o elfennau'r safon. Mewn rhai achosion, y cyfan fydd ei angen fydd cadarnhad bod gennych chi'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol ar waith. Mewn achosion eraill, byddwn yn gofyn i chi lanlwytho (neu anfon) dogfennau allweddol penodol, er enghraifft, eich blaengynllun/cynllun busnes neu bolisi datblygu casgliadau eich amgueddfa.

Lle rydym wedi gofyn i chi wneud hyn, bydd angen i chi roi dystiolaeth o gymeradwyaeth gan eich corff llywodraethu, neu'r is-bwyllgor dirprwyedig perthnasol, wedi'i llofnodi gan yr unigolyn awdurdodedig, er enghraifft eich Cadeirydd neu aelod Cabinet.

Gall dystiolaeth briodol fod ar sawl ffurf, yn dibynnu ar eich sefydliad.

- Copi wedi'i llofnodi o set lawn o gofnodion (cofnodion wedi'u llofnodi)
- Copi wedi'i llofnodi o set o gofnodion wedi'u golygu (cofnodion wedi'u llofnodi)

- Copi wedi'i llofnodi o ddetholiad o'r cofnodion sy'n cynnwys dyddiad y cyfarfod, rhif eitem a thrafodaeth lawn o'r eitem honno, heb unrhyw olygiadau (cofnodion wedi'u llofnodi)
- Dogfen benderfynu (awdurdodau lleol fel rheol) wedi'i chyhoeddi (ar y rhynggrwyd) – efallai na fydd y ddogfen wedi'i llofnodi ond bernir bod y ffaith ei bod wedi'i chyhoeddi yn dystiolaeth o gymeradwyaeth
- Dogfen benderfynu wedi'i llofnodi ond heb ei chyhoeddi (awdurdodau lleol a phrifysgolion fel rheol)
- Datganiad wedi'i llofnodi gan yr unigolyn priodol sy'n nodi bod y cynllun, polisi ac ati wedi'i gymeradwyo gan y corff llywodraethu

Ystyr 'wedi'i llofnodi' yw:

- Llofnod go iawn gan yr unigolyn priodol ar ddogfen bapur
- Llungopi neu sgan o ddogfen â llofnod go iawn arni
- Neges e-bost gan yr unigolyn priodol gyda chofnodion heb eu llofnodi fel atodiad sy'n dweud bod y cofnodion neu gofnodion golygedig hynny, neu ddetholiad o'r cofnodion, wedi cael eu cymeradwyo ar ddyddiad penodol
- Neges e-bost gan yr unigolyn priodol

Cael cymorth

Pwy i gysylltu â nhw

Mae cyngor a chymorth ar gael i'ch helpu i gwblhau cais neu ffurflen. Mae pob sefydliad asesu yn cynnig tîm cynghori sy'n gweithredu yn ei ardal ddaearyddol. Gallwch gael manylion pellach gan:

Cymru

Llywodraeth Cymru

<https://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/museums-archives-libraries/?skip=1&lang=cy>

E-bost: MALD@gov.wales

Lloegr

Arts Council England

<https://www.artscouncil.org.uk/supporting-arts-museums-and-libraries/museums-accreditation-scheme>

E-bost: accreditation@artscouncil.org.uk

Am gyngor Achredu ar gyfer amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol cysylltwch â'ch darparwr Datblygu Amgueddfa rhanbarthol <https://www.artscouncil.org.uk/museum-development-programme/museum-development-providers>

Gweler gwefannau rhanbarthol ar gyfer eich darparwr Datblygu Amgueddfa unigol

Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel

Arts Council England

<https://www.artscouncil.org.uk/supporting-arts-museums-and-libraries/museums-accreditation-scheme>

Am gyngor Achredu cysylltwch â'r Rheolwr Achredu Amgueddfeydd

E-bost: accreditation@artscouncil.org.uk

Gogledd Iwerddon

Northern Ireland Museums Council

<https://www.nimc.co.uk/>

E-bost: devofficer@nimc.co.uk

Yr Alban

Museums Galleries Scotland

<https://www.museumsgalleriesscotland.org.uk>

E-bost:

accreditation@museumsgalleriesscotland.org.uk

Amgueddfeydd cenedlaethol y DU

Arts Council England

<https://www.artscouncil.org.uk/supporting-arts-museums-and-libraries/museums-accreditation-scheme>

Am gyngor Achredu ar gyfer amgueddfeydd cenedlaethol cysylltwch â'r Rheolwr Achredu Amgueddfeydd

E-bost: accreditation@artscouncil.org.uk

Mentoriaid Achredu

Os oes gennych chi Fentor Achredu (neu Fentor Amgueddfa gynt) i'ch cynorthwyo, cysylltwch ag ef neu hi pan fyddwch yn ystyried cyflwyno cais neu ffurflen Achredu. Ei rôl yw rhoi cyngor neu'ch cyfeirio at help a chyfarwyddyd pan fyddwch chi'n Gweithio Tuag At Achrediad am y tro cyntaf neu'n datblygu cais newydd a'ch ffurflenni dilynol.

Mae Mentoriaid Achredu'n rhoi cymorth i amgueddfeydd llai sy'n methu manteisio ar gyngor proffesiynol am dâl. Gweler gofyniad 1.3 am esboniad o beth mae hyn yn ei olygu. Mae amgueddfeydd yn gyfrifol am ddod o hyd i'w mentor eu hunain ond gall y sefydliad sy'n asesu'ch Achrediad, eich darparwr Datblygu Amgueddfa neu Gynghorydd Achredu roi rhagor o wybodaeth i chi ynghylch sut mae mynd ati i wneud hyn a beth yw'r broses.

Adnoddau cymeradwy Achredu

Gallwch ddod o hyd i amrywiaeth o adnoddau cymeradwy i'ch helpu gyda'ch ffurflen gais hefyd:

- Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM) <https://www.aim-museums.co.uk>
- Yr Ymddiriedolaeth Casgliadau <https://collectionstrust.org.uk/accreditation>

Mae gan eich sefydliad asesu neu'ch darparwr Datblygu Amgueddfa ystod o adnoddau cymorth hefyd.


Cymorth gyda mynediad

Gallwn roi cymorth gyda mynediad i bobl sydd ag anghenion mynediad. Cysylltwch â'ch sefydliad asesu os ydych chi'n wynebu neu'n rhagweld unrhyw rwystr wrth wneud eich cais neu gyflwyno'ch ffurflen neu os hoffech fwy o wybodaeth.

Nodiadau canllaw ar gyfer gofynion 1-3 y Safon Achredu, Iechyd y Sefydliad


Mae tri gofyniad cyntaf y Safon Achredu’n edrych ar sut rydych chi’n rhedeg eich amgueddfa, eich trefniadau llywodraethu a rheoli. Bydd angen i chi roi tystiolaeth o sut

rydych chi’n cynllunio ymlaen llaw, sut rydych chi’n sicrhau bod gennych chi’r adnoddau i gyflawni’ch cynllun, a sut rydych chi’n asesu ac yn rheoli risg yn eich sefydliad.



1 Trefniadau llywodraethu a rheoli priodol

I fodloni’r safon, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth fod gennych bob un o’r canlynol:



1.1 Datganiad clir o bwrpas

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
1.1 Datganiad clir o bwrpas	Mae'r datganiad o bwrpas yn diffinio pam mae'r amgueddfa'n bodoli ac ar gyfer pwy mae hi. Mae'n sail i'r holl benderfyniadau a gweithgarwch a dylai gael ei gyfathrebu a'i ddeall yn glir ledled eich sefydliad a gan eich rhanddeiliaid a'ch defnyddwyr.	Mae'r datganiad wedi'i gynnwys yn eich dogfen lywodraethu fel rheol a byddai disgwyl iddo ymddangos mewn dogfennau polisi a chynllunio allweddol. Bydd angen i chi ddweud wrthym ble mae'ch datganiad o bwrpas yn eich dogfennau allweddol – dogfen lywodraethu, blaengynllun neu gynllun busnes, a pholisi datblygu casgliadau.

Amgueddfeydd annibynnol – mathau 1-3

Caiff Elusennau a Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIOs) eu harwain gan gyfansoddiad a fydd yn cynnwys eu datganiad o bwrpas (yr 'amcan' neu'r 'amcanion'). Hwyrach fod y datganiad wedi'i ysgrifennu gryn amser yn ôl ac mae'n bosibl ei fod wedi cael ei ailysgrifennu fel datganiad cenhadaeth i'w ddefnyddio mewn dogfennau polisi a dogfennau cynllunio. Mae hyn o ganlyniad i newidiadau mewn pwyslais a defnydd o iaith gan amlaf.

Os yw'r amcan/datganiad o bwrpas elusennol wedi cael ei ailysgrifennu fel hyn, ni ddylid newid yr ystyr.

Amgueddfeydd awdurdod lleol – mathau 1-3

Gall fod nifer o ddatganiadau gwahanol o bwrpas, ar lefelau gwahanol yn yr awdurdod lleol. Gallai fod hyd at dair lefel. Os yw hyn yn wir, cyflwynwch gopïau o'r holl ddogfennau perthnasol:

- Datganiad o bwrpas sy'n llywio strategaeth ddiwylliannol (neu gyfwerth) y Cyngor
- Datganiad o bwrpas sy'n deillio o'r strategaeth ddiwylliannol (neu gyfwerth) sy'n llywio dogfen gynllunio'r gwasanaeth amgueddfeydd
- Datganiad o bwrpas ar gyfer yr amgueddfa unigol sy'n cefnogi datganiad o bwrpas trosfwaol y gwasanaeth amgueddfeydd

Amgueddfeydd prifysgol – mathau 1-3

Fel rheol, bydd y datganiad o bwrpas wedi'i leoli yng nghylch gorchwyl y pwyllgor perthnasol neu delerau gwaddol neu rodd.

Amgueddfeydd cenedlaethol

Fel rheol mae amgueddfeydd cenedlaethol yn cael eu llywodraethu gan Ddeddf Seneddol neu Siarter Brenhinol a'u cyfansoddi fel elusennau sy'n cael eu llywio gan gyfansoddiad a fydd yn cynnwys eu datganiad o bwrpas (yr 'amcan' neu'r 'amcanion').

Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw

Bydd hyn yn ymwneud â'ch math priodol o drefniadau llywodraethu.

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn edrych ar y dogfennau rydych chi'n eu cyflwyno gyda'ch cais i wirio bod llinyn amlwg rhwng eich datganiad o bwrpas a'ch dogfen lywodraethu a chynlluniau a dogfennau polisi allweddol, fel y blaengynllun/cynllun busnes a'r polisi datblygu casgliadau
- Os oes datganiad 'syml' o bwrpas wedi'i ddatblygu o ddatganiad mwy cymhleth, byddwn yn edrych i weld a yw'r pwrpas craidd wedi aros yr un fath
- Os yw'r datganiad o bwrpas yn cael ei ategu gan is-ddatganiad neu is-genhadaeth mwy manwl neu bendant, byddwn yn edrych i weld sut mae'r pwrpas craidd wedi aros yr un fath

1.2 Cyfansoddiad priodol

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
1.2 Cyfansoddiad priodol	Mae amgueddfeydd yn sefydliadau hirdymor sy'n bodoli er lles y cyhoedd ac sy'n gwarchod eu hasedau, gan gynnwys casgliadau. Mae cyfansoddiadau'n bwysig i amgueddfeydd oherwydd maent yn ddogfennau cyfreithiol sy'n nodi bwriadau'r sefydliadau i sicrhau lles y cyhoedd a gwarchod casgliadau yn yr hirdymor. Rhaid i'ch dogfen lywodraethu eich galluogi i wneud hyn.	Mae hyn yn cyfeirio at eich dogfen lywodraethu. Dogfen gyfreithiol yw hon sy'n amlinellu nodau'r sefydliad a, gan amlaf, sut mae'n cael ei weinyddu. Bydd angen i ni weld y ddogfen hon (dogfennau hyn) os mai dyma'ch cais cyntaf neu os yw wedi newid ers eich ffurflen ddiwethaf. Bydd angen i chi gyflwyno copi o'r fersiwn gymeradwy ddiweddaraf. Os nad yw'ch dogfen lywodraethu wedi newid ers eich cyflwyniad diwethaf, ni fydd angen i ni ei gweld eto. Mae angen i ddogfennau llywodraethu cyfredol eich amgueddfa gwmpasu'r meini prawf cyfansoddiadol canlynol: 1. Bodoli ers lles y cyhoedd 2. Gallu dangos bod ei chasgliadau a'i hasedau'n cael eu gwarchod yn briodol 3. Yn meddu ar bwerau i weithredu amgueddfa a dal casgliadau ac asedau, a rhaid i'r pwerau hyn fod yn dryloyw ac ni ddylent gynnwys y gallu i ddosbarthu asedau neu elw er budd personol 4. Yn destun rheoleiddio statudol neu broses farnwrol mewn perthynas â'i hymddygiad 5. Gorfod bod yn endid parhaol sydd â phwrrpas hirdymor

I wybod mwy am drefniadau cyfansoddiadol, gweler *Museum Constitutional and Governance Arrangements* (gan Dawn Langley, Alchemy Research and Consultancy ar gomisiwn gan Arts Council England ar ran Partneriaeth Achredu

y DU, Tachwedd 2018). Mae'r ddogfen ar gael gan eich darparwr Datblygu Amgueddfa, Cynghorydd Achredu neu'ch sefydliad asesu.

Amgueddfeydd annibynnol – mathau 1-3

Caiff elusennau a CIOs eu harwain gan gyfansoddiad. Dyma'ch dogfen lywodraethu – dogfen gyfreithiol sy'n amlinellu nodau sefydliad a, gan amlaf, sut mae'n cael ei gweinyddu.

Dylai'r cyfansoddiad roi'r pŵer i ddal a/neu fod yn berchen ar gasgliad ac i weithredu amgueddfa o fewn naill ai ei hamcanion sylfaenol neu is-gymal. Os ydych chi'n elusen gofrestredig/gymeradwy, bydd rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru gyda'r awdurdod rheoleiddio perthnasol (Comisiwn Elusennau, Office of the Scottish Regulator).

Bydd angen i chi ddarparu copi o'ch dogfen lywodraethu.

Os nad yw cofrestru'n bosibl, dylai'r amgueddfa roi tystiolaeth o gymeradwyaeth elusennol gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) <https://www.gov.uk/charity-recognition-hmrc>

Amgueddfeydd awdurdod lleol – mathau 1-3

Bernir bod gan amgueddfeydd awdurdodau lleol y pŵer i weithredu amgueddfeydd drwy'r Ddeddf Seneddol neu Orchymyn (Gogledd Iwerddon) perthnasol:

- Cymru a Lloegr: Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964; Deddf Llywodraeth Leol 1972
- Yr Alban: Public Libraries Consolidation (Scotland) Act 1887
- Gogledd Iwerddon: The Museums and Galleries (Northern Ireland) Order 1998

Gall Amgueddfeydd Awdurdod Lleol fod y prif awdurdod neu gyngor tref, cymuned (Cymru) neu blwyf lle mae awdurdod wedi'i ddirprwyo. Gall awdurdodau lleol fod â phwerau hefyd i weithredu amgueddfeydd drwy Ddeddf Awdurdod Lleol briodol.

Beth bynnag fo'r trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer yr amgueddfeydd sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol neu eu contractio, bydd angen i chi atodi dogfennau llywodraethu cyfredol eich amgueddfa. Gallent fod yn gopi o gyfansoddiad yr amgueddfa, neu gyfeiriad at y Ddeddf Seneddol, Gorchymyn neu Ddeddf Awdurdod Lleol dan sylw. Mewn rhai achosion, gall amgueddfeydd fod â chyfansoddiad elusen, ac mae'r awdurdod lleol yn gweithredu fel ei hunig ymddiriedolwr. Os felly, byddai angen i ni weld y cytundeb gyfreithiol gan yr awdurdod lleol sy'n grymuso'r ymddiriedolaeth elusennol i redeg yr amgueddfa.

Fel y gallwn ddeall unrhyw drefniadau sydd wedi'u contractio, bydd angen i chi roi copïau o unrhyw gytundebau rhwng yr awdurdod lleol a'r sefydliad rheoli. Gallai hyn gynnwys dogfennau fel cytundeb rheoli neu gytundeb lefel gwasanaeth, neu gytundeb benthyca casgliadau.

Amgueddfeydd prifysgol – mathau 1-3

Bernir bod gan brifysgolion y pŵer i weithredu amgueddfeydd os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Fel rheol, bydd y ddogfen lywodraethu wedi'i lleoli yng nghylch gorchwyl y pwyllgor perthnasol neu delerau gwaddol neu rodd.

Bydd angen i chi gyflwyno copi o'ch dogfen lywodraethu.

Amgueddfeydd cenedlaethol

Fel rheol mae amgueddfeydd cenedlaethol yn cael eu llywodraethu gan Ddeddf Seneddol neu Siarter Brenhinol a'u cyfansoddi fel elusennau a gaiff eu llywio gan gyfansoddiad a fydd yn cynnwys eu datganiad o bwrpas, sef yr 'amcan' neu'r 'amcanion'.

Hwyrach mai'r Senedd a basiodd y Ddeddf yw'r corff rheoleiddio, boed yn Senedd y DU neu'n senedd ddatganoledig, yn hytrach na'r Comisiwn Elusennau neu'r Office of the Scottish Charity Regulator (OSCR).

Bydd angen i chi gyflwyno copi o'ch dogfen lywodraethu.

Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw

Bydd angen i chi ddarparu copi o'ch dogfen lywodraethu. Bydd y ddogfen hon yn ymwneud â'ch math priodol o drefniadau rheoli.

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn gwirio mai'r ddogfen lywodraethu yw'r fersiwn gymeradwy ddiweddaraf
- Byddwn yn gwirio bod y wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn cyd-fynd â'r wybodaeth sydd gan y cyrff rheoleiddio perthnasol
- Byddwn yn gwirio bod enw'r sefydliad yn gyson â'ch corff llywodraethu
- Byddwn yn edrych i weld a oes unrhyw sefydliadau cysylltiedig neu is-sefydliadau (er enghraifft, ymddiriedolaeth dal casgliadau).
- Byddwn yn gwirio a yw'ch trefniadau llywodraethu yn glir
- Byddwn yn gwirio a yw'ch cyfansoddiad yn rhoi'r pwerau i chi weithredu amgueddfa
- Byddwn yn edrych i weld pa gyfleoedd rydych chi'n eu cynnig i'r cyhoedd gael mynediad i'ch asedau a'ch casgliad/au ac ymwneud â nhw
- Byddwn yn gwirio a yw'ch cyfansoddiad yn rhoi'r pwerau i chi ddal asedau a chasgliad/au
- Byddwn yn edrych i weld a yw'ch asedau a chasgliad/au yn cael eu gwarchod yn briodol ac yn cael eu defnyddio er lles y cyhoedd yn unig
- Byddwn yn gwirio os oes gennych chi gorff llywodraethu sydd wedi'i gyfansoddi o dan eich dogfennau llywodraethu
- Byddwn yn gwirio bod eich cyfansoddiad yn dangos bod gennych chi bwrpas hirdymor

1.3 Strwythur boddhaol ar gyfer eich rheoli a llywodraethu

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
1.3 Strwythur boddhaol ar gyfer eich rheoli a llywodraethu	Mae angen bod strwythur rheoli ar waith yn amlinellu awdurdodau, rolau a chyfrifoldebau priodol i alluogi penderfyniadau ac atebolrwydd ffurfiol. Mae angen gweithlu priodol ar eich amgueddfa i'w rhedeg yn effeithiol a rhaid iddi gael polisiâu cyflogaeth, cynlluniau, gweithdrefnau a rolau effeithiol i gyflawni ei chyfrifoldebau.	Bydd angen i chi ddisgrifio'ch trefniadau rheoli. Bydd angen i chi gadarnhau pwy sydd â'r awdurdod a'r cyfrifoldeb i gymeradwyo penderfyniadau a chyflwyno dogfennau ategol ar gyfer hyn. Bydd angen i chi gadarnhau pwy sydd â'r awdurdod i gymeradwyo polisiâu a chynlluniau amgueddfeydd. Os oes sefydliad ar wahân yn rhedeg yr amgueddfa, bydd angen i ni weld unrhyw gytundebau cymeradwy rhwng y sefydliad hwnnw a'r corff llywodraethu. Bydd angen i chi ddweud wrthym sut rydych chi'n cael cyngor gan weithwyr amgueddfa proffesiynol ar ddatblygu polisiâu a gwneud penderfyniadau. Os oes gennych chi Fentor Achredu bydd angen i chi gyflwyno'r cytundeb mentor wedi'i lofnodi, cofnod wedi'i lofnodi yn cadarnhau'r penodiad ac adroddiad mentor. Bydd angen i chi gadarnhau'r trefniadau sydd gennych ar waith ar gyfer recriwtio, sefydlu, nodi anghenion hyfforddi, hyfforddiant, dysgu a datblygu a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Bydd angen i chi ddarparu copi o siart eich sefydliad neu'ch gweithlu. Bydd angen i chi ddarparu copi o'ch cytundeb gwirfoddolwyr ysgrifenedig neu ddogfen gyfatebol sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau penodol.

Byddwn am weld bod profiad y gweithiwr amgueddfa proffesiynol yn briodol i'ch maint a'ch math, a bod llinell gyfathrebu glir rhwng y gweithiwr amgueddfa proffesiynol a'ch corff llywodraethu. Dylai lefel y cyngor sydd ar gael fod yn briodol i faint, cwnpas, bregusrwydd a gwerth eich amgueddfa a'ch casgliadau. Ar gyfer amgueddfeydd llai, heb staff proffesiynol sy'n cael eu talu, gellir bodloni hyn drwy benodi Mentor Achredu.

Diffinnir gweithiwr amgueddfa proffesiynol yn yr Achrediad fel rhywun sydd â'r canlynol:

- O leiaf dair blynedd o brofiad o weithio mewn amgueddfeydd, gyda phrofiad ar lefel curadur/rheolwr. Gall y profiad hwn fod ar draws unrhyw un o'r tri maes yn y safon: iechyd sefydliadol, rheoli casgliadau, neu ddefnyddwyr a'u profiadau

- Ymrwymiad i ddysgu a datblygu'n bersonol i ddangos sut maen nhw'n diweddarau eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad

Gall gweithwyr amgueddfa proffesiynol (yn cynnwys Mentoriaid Achredu) wasanaethu ar gorff llywodraethu amgueddfa fel aelod sy'n cael pleidleisio.

Rydym yn disgwyl i'r Mentor Achredu fynychu o leiaf un o gyfarfodydd y corff llywodraethu bob blwyddyn ac ymweld â'r amgueddfa o leiaf unwaith y flwyddyn. Byddwn yn gofyn am adroddiad Mentor Achredu i gyd-fynd â'ch cais neu'ch ffurflen. Gallwch ei lanlwytho i'r ffurflen ar-lein neu ei gyflwyno ar wahân i'r sefydliad sy'n asesu'ch Achrediad.

Amgueddfeydd annibynnol – mathau 1-3

Os yw'r corff llywodraethu wedi sefydlu pwyllgor rheoli i reoli'r amgueddfa neu os yw'n cael ei rheoli gan sefydliad sydd ar wahân yn gyfreithiol, bydd angen i ni weld cylch gorchwyl a thelerau cyfrifoldeb clir y cytunwyd arnynt gan y corff llywodraethu.

Y disgwyliad ar gyfer amgueddfeydd annibynnol math 2 yw eu bod yn cael eu gweithredu'n gyfan gwbl, neu gan mwyaf, gan wirfoddolwyr: gyda chymorth Mentor Achredu fel rheol. Hefyd, bydd yna gymysgedd o staff cyflogedig a gwirfoddol ar gyfer math 2 felly gall Mentor Achredu fod yn briodol hefyd. Ar gyfer math 3, y disgwyl yw y byddai'r amgueddfa'n cyflogi gweithiwr amgueddfa proffesiynol sy'n cael ei dalu.

Byddwn yn edrych i weld sut mae'ch corff llywodraethu yn gweithio gyda'ch Mentor Achredu.

Amgueddfeydd awdurdod lleol – mathau 1-3

Bydd y llinell awdurdod yn dibynnu ar a oes model cabinet neu fodel cyngor ar waith. Byddwn yn edrych i weld sut mae'r llinell awdurdod a chymeradwyaethau'n cysylltu'r corff llywodraethu (Cyngor) â gweithgareddau'r amgueddfa. Bydd hyn yn cael sylw yng nghylch gorchwyl y Cyngor a'i gynllun dirprwy fel rheol.

Rhaid bod yna weithiwr amgueddfa proffesiynol sy'n cael ei dalu yn bresennol. Pan mae gwasanaeth yn rheoli nifer o safleoedd, nid oes disgwyl i bob amgueddfa unigol fod â'i staff ymroddedig ei hun cyn belled ag y gall pob un gael gafael ar staff amgueddfa proffesiynol a bod hyn yn briodol i'w maint a'i graddfa.

Amgueddfeydd prifysgol – mathau 1-3

Y prif gorff llywodraethu fydd cyngor neu senedd y brifysgol fel rheol a byddwn yn chwilio am linell glir o awdurdod o'r corff llywodraethu i weithgareddau'r amgueddfa. Gall prifysgolion fod â phwyllgor rheoli penodol a byddwn yn edrych i weld bod awdurdod wedi'i ddirprwyo ar gyfer cymeradwyaethau.

Os yw'r amgueddfa'n cael ei rheoli gan staff y brifysgol fel rhan o'u rôl addysgu, y disgwyliad yw y bydd eu cyfrifoldebau i'r amgueddfa'n cael eu datgan yn glir yn eu disgrifiad swydd.

Amgueddfeydd cenedlaethol

Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw

Bydd hyn yn ymwneud â'ch math o drefniadau llywodraethu priodol.

Bydd angen i chi gadarnhau eich bod yn cyflogi llawer o weithwyr amgueddfa proffesiynol, i gyflawni ystod o weithgareddau craidd.

Bydd angen i chi ddweud wrthym pa drefniadau staffio sydd ar waith i gefnogi ymchwil yn eich amgueddfa.


Bydd angen i chi egluro sut mae'ch staff proffesiynol yn darparu cyngor arbenigol i amgueddfeydd, orielau a chasgliadau eraill. Gallai hyn fod drwy fentora ar gyfer yr Achrediad ond mae yna nifer o ffyrdd eraill o ddangos sut rydych chi'n rhoi cymorth i'r sector.

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn chwilio am dystiolaeth glir o ddirprwyo awdurdod gyda chylch gorchwyl cymeradwy ar gyfer pob pwyllgor ac is-bwyllgor rheoli
- Byddwn yn edrych ar bwy, neu ba pŵer, sydd â'r awdurdod a chyfrifoldeb am gymeradwyo dogfennau polisi. Gall hyn gynnwys penderfyniadau rydych chi'n eu dirprwyo i is-bwyllgorau, staff neu wirfoddolwyr
- Os oes sefydliad rheoli ar wahân yn gyfreithiol yn rheoli'r amgueddfa, byddwn yn gofyn am gael gweld eich cytundeb cymeradwy, er enghraifft, Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae angen iddo ddangos pwy sy'n gyfrifol am ba swyddogaethau a phwy sy'n talu am beth, yn ogystal â ble mae unrhyw arian sy'n cael ei wneud yn mynd. Rhaid ei bod hi'n glir pwy sy'n berchen ar y casgliad, yn ogystal â bod yn berchen ar eitemau a gesglir
- Byddwn yn gwirio bod gan eich corff llywodraethu fynediad i gyngor amgueddfa proffesiynol ar gyfer llunio polisiâu, yn briodol i'ch maint a'ch math
- Byddwn yn gwirio bod eich strwythur sefydliadol yn gydlynol, yn gyfredol ac yn briodol i faint a graddfa'ch amgueddfa
- Byddwn yn edrych i weld a oes digon o rolau yn eich gweithlu i gyflawni'ch blaengynllun/cynllun busnes yn effeithiol, yn briodol i'ch maint a'ch math
- Byddwn yn edrych ar nifer y swyddi sydd wedi'u rhewi/yn wag a gweld pa gynlluniau sydd gennych i ailbenodi neu liniaru effaith y swyddi gwag hyn
- Byddwn yn gwirio bod gennych chi strategaethau a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer recriwtio, sefydlu, nodi anghenion hyfforddi, hyfforddiant, dysgu a datblygu a chynllunio ar gyfer olyniaeth eich corff llywodraethu, staff sy'n cael eu talu a gwirfoddolwyr
- Os oes gennych chi Fentor Achredu, byddwn yn gwirio eich bod chi wedi ei benodi'n ffurfiol a byddwn eisiau gwybod sut rydych chi'n gweithio gyda'ch gilydd fel eich bod yn gallu cael cyngor proffesiynol a'i ddefnyddio i helpu i lywio'ch penderfyniadau
- Os yw'n berthnasol, byddwn yn gofyn am adroddiad Mentor Achredu i gyd-fynd â'ch cais neu ffurflen

2 Cynllunio ymlaen llaw a bod gennych chi'r adnoddau i gyflawni'ch cynllun

I fodloni'r safon, byddwch angen cyflwyno tystiolaeth bod gennych chi bob un o'r canlynol:



2.1 Blaengynllun neu gynllun busnes sy'n cynnwys y flwyddyn gynllunio gyfredol a dilynol

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
2.1 Blaengynllun neu gynllun busnes sy'n cynnwys y flwyddyn gynllunio gyfredol a dilynol	Dylai amgueddfeydd gynllunio'n effeithiol ar gyfer yr hirdymor a gallu ymaddasu mewn amgylchedd sy'n newid. Mae'ch blaengynllun neu gynllun busnes yn amlinellu nodau ac amcanion allweddol eich sefydliad a sut byddant yn cael eu cyflawni dros amser penodol ac o fewn cyllideb benodol. Rydym yn gofyn am gael ei weld fel y gallwn ddeall sut mae'ch sefydliad yn cynllunio at y dyfodol.	Mae blaengynlluniau neu gynlluniau busnes yn bodoli mewn pob siâp a fformat. Dylai'ch cynllun fod yn briodol i faint eich amgueddfa, cyd-destun, graddfa ac uchelgais eich gweithrediadau. Nid oes templed safonol ar gyfer blaengynlluniau neu gynlluniau busnes. Er y bydd angen i ni weld rhai elfennau arbennig, eich dogfen chi yw hi. Os ydych chi'n defnyddio elfennau eraill yn eich cynllunio, dylech eu cynnwys. Nid oes disgwyl i chi baratoi cynllun yn unswydd at ddibenion Achredu.

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
2.1 Blaengynllun neu gynllun busnes sy'n cynnwys y flwyddyn gynllunio gyfredol a dilynol		Dylai'ch blaengynllun/cynllun busnes gael ei gymeradwyo gan eich corff llywodraethu a dylai gynnwys: • Datganiad o bwrpas • Y cyfnod dan sylw yn y cynllun • Y nodau allweddol rydych chi am eu cyflawni yn ystod cyfnod y cynllun • Sut byddwch chi'n cyflawni'r amcanion hyn • Beth fyddwch ei angen i gyflawni'r amcanion hyn, yn cynnwys pobl, offer ac arian • Cyllidebau ar gyfer y flwyddyn gynllunio gyfredol a dilynol • Dyddiad adolygu Bydd angen i chi ddarparu copi o'ch blaengynllun/cynllun busnes a chymeradwyaeth wedi'i llofnodi gan eich corff llywodraethu. Rhaid i'ch datganiad o bwrpas a nodau allweddol gael eu cymeradwyo gan y corff llywodraethu neu'r rheini sydd wedi'u cymeradwyo i wneud penderfyniadau dirprwyedig (gweler adran 1.3). Mae'n debygol y bydd eich amcanion penodol a'ch cyllidebau yn newid o fewn blwyddyn, felly nid oes angen i'r elfennau hyn gael eu cymeradwyo'n ffurfiol.

Amgueddfeydd annibynnol – mathau 1-3

Ni fydd disgwyl i sefydliadau llai ddarparu blaengynlluniau neu gynlluniau busnes ar yr un raddfa â chynlluniau sefydliadau llawer mwy, ond dylent gynnwys yr elfennau ar y dudalen flaenorol.

Amgueddfeydd awdurdod lleol – mathau 1-3

O fewn strwythurau awdurdodau lleol, mae’n bosibl y bydd yna lawer o gynlluniau a chylchoedd cynllunio. Mae’n gyffredin i strategaeth ddiwylliannol neu ddogfen debyg ddarparu’r cyd-detsun ar gyfer cynllunio.

Os oes gennych chi gynllun ehangach ar gyfer gwasanaeth neu is-adran, byddai angen i ni weld cynlluniau safleoedd unigol, neu allu dod o hyd i’ch gweithgarwch o fewn unrhyw gynlluniau mwy. Byddwn angen gweld holl lefelau’r cynllun, ynghyd â chymeradwyaethau priodol, fel rhan o’ch cais neu ffurflen.

Amgueddfeydd prifysgol – mathau 1-3

Gall amgueddfeydd prifysgol weithio o fewn nifer o gynlluniau a chylchoedd cynllunio. Yn aml mae strategaeth prifysgol neu ddogfen debyg yn rhoi’r cyd-destun ar gyfer cynllunio.

Gall yr ysgol neu’r adran ymateb i hyn gyda’i chynllun ei hun wedyn hefyd.

Beth bynnag fo’r cyd-destun, byddem yn disgwyl gweld cynllun amgueddfa’n cysylltu â’r strategaeth neu gynllun prifysgol sy’n perthyn agosaf iddo. Byddwn am weld pob lefel o’r cynllun, ynghyd â chymeradwyaethau priodol, fel rhan o’ch cais neu’ch ffurflen.

Amgueddfeydd cenedlaethol

Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw

Byddwn yn disgwyl gweld prosesau ymgynghori ffurfiol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol ar gyfer eich blaengynllun neu gynllun busnes.

Byddwn yn gwirio bod gennych chi fecanwaith adolygu ar waith ar gyfer eich cynllun a sut rydych chi’n monitro’ch perfformiad ac yn defnyddio’r wybodaeth hon i wella gwasanaethau.

Bydd angen i chi ddangos ble mae’ch cynllun yn arddangos uchelgais a chyflawni ar lefel genedlaethol.

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn gwirio bod y datganiad o bwrpas yn gyson gyda'ch dogfen lywodraethu
- Byddwn yn edrych ar elfennau'r blaengynllun neu gynllun busnes i weld bod manylion priodol ar gyfer maint yr amgueddfa a'r math o amgueddfa yw hi
- Byddwn yn gwirio bod cysylltiad clir rhwng nodau, amcanion ac adnoddau
- Byddwn yn gwirio bod cynlluniau ar gyfer camau gweithredu ac adnoddau i gyflawni'ch amcanion
- Byddwn yn gwirio bod y cynllun yn cysylltu'n effeithio â strategaethau, cynlluniau a pholisïau cysylltiedig
- Byddwn eisïau gweld bod proses glir ar waith ar gyfer cymeradwyo'ch cynllun (yn briodol i'r trefniadau llywodraethu) a thystiolaeth gysylltiedig o gymeradwyaeth
- Byddwn yn edrych i weld bod y blaengynllun neu'r cynllun busnes yn cwmpasu'r flwyddyn gynllunio gyfredol a dilynol yn y man lleiaf (ar sail cylchoedd ariannol a chynllunio'r amgueddfa)

2.2 Cynaliadwyedd ariannol

I fodloni'r safon, byddwch angen	Pob amgueddfa	
	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
2.2 Cynaliadwyedd ariannol	Rhaid i amgueddfeydd fod yn wydn ac yn gynaliadwy er mwyn gallu goroesi. Rhaid i chi allu dangos bod eich amgueddfa'n gynaliadwy yn ariannol, a bod gennych chi'r adnoddau ariannol i gyflawni'ch blaengynllun/cynllun busnes. Mae hyn yn dangos i ni eich bod chi'n sefydliad hirdymor ac yn cadarnhau nad ydych chi'n gweithredu'n anfoesol drwy werthu casgliadau neu'n eu defnyddio fel gwarant gyfochrog.	Bydd angen i chi ddarparu copïau o gyfrifon ar gyfer y ddwy flwyddyn gynllunio ariannol ddiwethaf sydd ar gael. Dylent ddangos incwm a gwariant terfynol ar gyfer dwy flynedd ddiwethaf eich amgueddfa (neu ddolen we i gyfrifon wedi'u cyhoeddi). Rhaid i incwm a gwariant fod yn glir, waeth beth fo maint y gyllideb.

Amgueddfeydd annibynnol – mathau 1-3

Byddwn angen y ddwy flynedd ddiwethaf o gyfrifon wedi'u harchwilio fel sy'n ofynnol gan y Rheoleiddiwr priodol, fel y Comisiwn Elusennau/Office of the Scottish Charity Regulator.

Os yw cyllideb weithredu'ch amgueddfa yn llai na throthwyon adrodd y rheoleiddiwr elusennau, nid oes rhaid i'ch cyfrifon gael eu harchwilio ond bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni gofynion adrodd elusennau a/neu'n cadw cyfrifon cyfrifyddu.

Amgueddfeydd awdurdod lleol – mathau 1-3

Byddwn angen incwm a gwariant terfynol gwirioneddol ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol. Nid yw llyfrau cyllideb y cyngor yn dderbyniol, ond dylai dystiolaeth barhau i gydymffurfio â gweithdrefnau'r corff llywodraethu.

Dylid darparu manylion dadansoddiadau o gostau ar gyfer gweithgarwch a gwariant sy'n ymwneud yn benodol â'r amgueddfeydd.

Amgueddfeydd prifysgol – mathau 1-3

Byddwn angen incwm a gwariant terfynol gwirioneddol ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol.

Amgueddfeydd cenedlaethol

Byddwn angen cyfrifon blynyddol ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf fel y’u cyhoeddwyd.

Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw


Byddwn angen cyfrifon blynyddol ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol fel y’u cyhoeddwyd.

Am beth rydym ni’n chwilio

- Byddwn yn gwirio sut rydych chi’n rheoli’ch cyllid ac yn ei ddyrannu i’r amcanion a nodwyd
- Byddwn yn gwirio bod y cyfrifon yn ddigon manwl i ddangos gwariant ar weithgareddau’r amgueddfa fel cadwraeth, arddangosfeydd, cynnal a chadw safleoedd, gweithredu
- Byddwn yn edrych ar eich cynaliadwyedd ariannol ac yn gwirio nad yw’r amgueddfa’n or-ddibynnol ar un ffynhonnell gyllid a bod unrhyw risgiau cysylltiedig wedi cael eu hystyried, gyda strategaeth liniaru glir ar waith os nad yw’r cyllid hwn ar gael mwyach
- Byddwn yn gwirio nad yw casgliadau’n cael eu defnyddio fel gwarant gyfochrog (lle mae rhywbeth yn cael ei bennu’n warant ar gyfer ad-dalu benthyciad)
- Byddwn yn gwirio nad yw casgliadau’n cael eu defnyddio fel ffynhonnell incwm drwy eu gwerthu’n anfoesegol

3 Asesu a rheoli risg i'ch sefydliad

I fodloni'r safon, byddwch angen cyflwyno tystiolaeth bod gennych chi bob un o'r canlynol:



3.1 Meddiannaeth ddiogel o bob adeilad sy'n cynnwys casgliadau

	Pob amgueddfa	
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
3.1 Meddiannaeth ddiogel o bob adeilad sy'n cynnwys casgliadau	I sicrhau bod casgliadau'n cael eu diogelu yn yr hirdymor, rhaid i'ch trefniadau meddiannaeth fod yn ddigonol i gadw'ch casgliadau yn ddiogel – y rhai sy'n cael eu harddangos a'r rhai sy'n cael eu storio – a galluogi blaengynllunio da.	Bydd gofyn i chi gadarnhau manylion meddiannaeth ar gyfer pob adeilad sy'n cynnwys casgliadau. Lle mae trefniadau meddiannaeth ar gyfer llai na 12 mis, bydd gofyn i chi amlinellu eich cynlluniau wrth gefn i sicrhau bod y casgliad yn cael ei warchod yn yr hirdymor (er enghraifft, dangos cynlluniau wrth gefn yn eich blaengynllun neu gynllun busnes).

Mae diffiniadau ac ystyr cyfreithiol mewn perthynas â chyfraith tir a pherchenogaeth yn amrywio ar draws y DU, yn enwedig rhwng yr Alban a Lloegr, felly gellir dod o hyd i drefniadau meddiannaeth yn y canlynol:

- Dogfennaeth rhydd-ddaliad – buddiannau absoliwt mewn tir (Yr Alban)
- Tenantiaethau
- Lesddaliadau
- Trwyddedau
- Caniatâd i feddiannu (Y Weinyddiaeth Amddiffyn)
- Mathau eraill o gytundebau tenantiaeth

Am beth rydym ni'n chwilio

- Gan amlaf, ni fyddwn yn gofyn am gael gweld telerau meddiannaeth ysgrifenedig, ac eithrio mewn achosion cymhleth neu lle mae anawsterau wedi dod i'r amlwg mewn asesiadau blaenorol
- Byddwn yn gwirio bod trefniadau hirdymor (12 mis o leiaf fel rheol) ar waith
- Byddwn yn chwilio am gyfnodau rhybudd byr neu fyr iawn a gweld sut mae'r rheolau hyn yn cael eu rheoli yn y blaengynllun/cynllun busnes yn cynnwys tystiolaeth o gynlluniau wrth gefn i sicrhau bod y casgliad yn cael ei ddiogelu yn yr hirdymor
- Byddwn yn gwirio a oes unrhyw adeiladau'n cael eu meddiannu heb gytundebau ysgrifenedig ffurfiol a pha dystiolaeth neu esboniad a roddwyd
- Os byddwn yn cynnal ymweliad safle, byddwn yn gwirio bod yr holl adeiladau sy'n gartref i gasgliadau wedi cael eu cynnwys

3.2 Asesiad risg o drefniadau diogelwch

I fodloni'r safon, byddwch angen	Pob amgueddfa	
	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
3.2 Asesiad risg o drefniadau diogelwch	Mae asesiad risg o'ch diogelwch yn rhan annatod o sicrhau bod eich casgliadau a'ch amgueddfa'n cael eu diogelu yn yr hirdymor. Dylai nodi bygythiadau i gasgliadau, pobl ac adeiladau a'ch helpu i fynd i'r afael â nhw neu eu lliniaru.	Bydd y ffynhonnell briodol o gyngor diogelwch yn amrywio yn ôl maint, cwmpas, bregusrwydd a gwerth eich amgueddfa a'i chasgliadau. Bydd angen i'r cyngor gwmpasu trefniadau ar gyfer eich gweithlu, ymwelwyr, adeiladau a chasgliadau – yn y storfa, yn cael eu harddangos, mewn swyddfeydd neu oddi ar y safle – a gwybodaeth am gasgliadau. Dylai trefniadau ar gyfer y rhain i gyd gael eu hadolygu o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd angen i chi ddangos sut mae argymhellion wedi cael neu'n mynd i gael eu gweithredu, er enghraifft drwy ddarparu cyfeiriadau o'ch blaengynllun neu gynllun busnes.

Gall cyngor diogelwch fod ar sawl ffurf – os oes modd, dylech gael cyngor arbenigol. Gallai fod gan:

- Arbenigwr mewnlol neu arbenigwr o amgueddfa eraill
- Eich swyddog cyswllt yr heddlu/diogelwch cymunedol lleol
- Eich darparwr larwm neu yswiriant
- Y Cyngorydd Diogelwch Cenedlaethol yn Arts Council England

Bydd angen i'r cyngor diogelwch edrych ar bob agwedd ar eich amgueddfa a'i chasgliadau, o ddiogelwch ffisegol yr adeilad i sut rydych chi'n diogelu'r wybodaeth sydd gennych am gasgliadau. Er enghraifft, gwybodaeth gyfrinachol fel rhestrau o'r eitemau mwyaf gwerthfawr yn eich casgliad.

Os na allwch chi gael cyngor arbenigol, byddwn yn disgwyl i chi gwblhau asesiad risg sy'n cwmpasu'r gweithlu, ymwelwyr, adeiladau a chasgliadau - y rhai sy'n cael eu harddangos a'r rhai sy'n cael eu storio - a natur eich amgueddfa, y casgliadau a'r wybodaeth sydd gennych amdanynt. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Casgliadau wybodaeth a thempledi ar gyfer archwiliadau diogelwch a phhecyn cymorth diogelwch. Dylid defnyddio'r adnoddau hyn os na allwch chi gael cyngor arbenigol a bod eich asesiad risg yn dangos lefel isel o risg.

Gallai adroddiad diogelwch gael ei baratoi o'r nodiadau rydych chi wedi'u gwneud o argymhellion llafar, eich archwiliad chi'ch hun neu adroddiad ffurfiol a gafwyd gan arbenigwr diogelwch. Ni fyddwn yn gofyn i chi anfon hwn gyda'ch ffurflen ar-lein.

Os byddwn yn ymweld â chi, byddwn yn gofyn am gael gweld eich asesiad diogelwch.

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn gwirio i weld bod yr adolygiad yn cwmpasu pob agwedd ar ddiogelwch a'i fod yn gymesur â maint yr amgueddfa a'r math o amgueddfa yw hi a maint eich casgliadau
- Byddwn yn gofyn am gadarnhad bod gennych chi gynllun ar waith ar gyfer gweithredu'r argymhellion
- Byddwn yn gofyn faint o'r argymhellion rydych chi wedi'u rhoi ar waith ac yn edrych i weld a oes sôn am unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o argymhellion yn eich blaengynllun neu gynllun busnes
- Byddwn yn gwirio bod eich cynllun wedi cael ei adolygu yn y pum mlynedd diwethaf

3.3 Cynllun argyfwng clir ac ymarferol

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
3.3 Cynllun argyfwng clir ac ymarferol	Mae cael cynllun argyfwng rydych chi wedi ei roi ar brawf yn sicrhau eich bod yn gallu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i argyfyngau neu drychinebau, diogelu pobl, casgliadau, gwybodaeth am gasgliadau ac adeiladau.	Bydd eich cynllun argyfwng yn briodol i faint eich amgueddfa a chyfansoddiad eich casgliadau. Bydd yn cynnwys: - Trefniadau ar gyfer y staff a gwirfoddolwyr, ymwelwyr, casgliadau a gwybodaeth am gasgliadau - Asesiad risg o fygythiadau - Gwybodaeth am sut mae'r cynllun yn cael ei awdurdodi, ei gynnal, ei gyfathrebu, ei brofi a'i rannu gyda'ch staff a gwirfoddolwyr a'r gwasanaethau brys - Sut rydych chi'n gweithio gyda'r gwasanaethau brys - Sut mae'ch cynllun yn cysylltu ag unrhyw gynlluniau argyfwng perthnasol eraill, er enghraifft, os ydych chi'n rhannu adeilad gyda sefydliad arall - Dealltwriaeth o flaenoriaethau achub a gwybodaeth am gamau cymorth cyntaf ar gyfer gwrthrychau sydd wedi cael eu difrodi - Gweithdrefn adolygu a dyddiad yr adolygiad Bydd angen i chi gadarnhau pa elfennau mae'r cynllun argyfwng yn eu cwmpasu a phryd gafodd ei adolygu diwethaf.

Mae angen i chi ystyried ac asesu pa fygythiadau sy'n peryglu'ch gweithrediad. Fel rheol, mae'r rhain yn cynnwys tân, dŵr, dwyn a fandaliaeth. Dylai'ch cynllun gynnwys y gweithdrefnau y byddech yn eu rhoi ar waith mewn argyfwng a bydd yn amlinellu'r camau y byddwch yn eu cymryd i ddiogelu a gofalu am eich asedau i gyd, yn ystod ac wedi argyfwng. Maent yn cynnwys pobl, adeiladau, casgliadau, a'r wybodaeth sydd gennych am gasgliadau.

Os yw'r rhain wedi'u hamlinellu mewn dogfennau eraill, bydd angen i chi ddweud ble yn eich cais.

Dylai'r rheini sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli yn eich amgueddfa wybod am y cynllun argyfwng a phwy ddylai gynnal profion a thrafodaethau rheolaidd am gynlluniau argyfwng gyda'r gweithlu cyfan.

Dylai'ch cynllun argyfwng lywio'ch prosesau a gweithdrefnau ehangach ar gyfer gofalu am gasgliadau, er enghraifft, wrth ddewis gwrthrychau sy'n flaenoriaeth i'w hachub a'u nôl.

Fel rheol, dim ond os byddwn ni'n ymweld â chi ar Ymweliad Safle Achredu, os yw'ch amgueddfa wedi cael ei hailddatblygu'n helaeth neu os oes gennym bryderon, y byddwn yn gofyn i chi am gopi o'ch cynllun.

Bydd angen i chi sicrhau bod y cynllun yn cael ei adolygu bob pum mlynedd, ac yn union ar ôl unrhyw newidiadau sylweddol i adeiladau a'u cynnwys, er enghraifft, ailddatblygu. Os ydych chi wedi dioddef trychineb, mae'n bosib y bydd angen i chi edrych ar ba mor dda weithiodd eich cynllun a gwneud newidiadau i wella sut mae'n gweithio.

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn gwirio bod y cynllun argyfwng yn cwmpasu trefniadau ar gyfer y gweithlu, ymwelwyr, a chasgliadau, a gwybodaeth am y casgliadau
- Byddwn yn cadarnhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth am sut rydych chi'n awdurdodi, cynnal, cyfathrebu a phrofi'ch cynllun, a sut rydych yn ei rannu gyda'ch gweithlu a'r gwasanaeth brys
- Byddwn yn gwirio pa mor aml mae'r cynllun yn cael ei brofi a'r dyddiad y cafodd ei adolygu diwethaf


Nodiadau canllaw ar ofynion 4-6 y Safon Achredu, Rheoli Casgliadau

Mae tri gofyniad nesaf y Safon Achredu’n edrych ar sut rydych chi’n rheoli’ch casgliadau. Byddant yn rhoi sylw i sut rydych chi’n datblygu, cofnodi a gofalu am eich casgliadau. Mae gwahanol amgueddfeydd yn mynd ati mewn ffyrdd gwahanol i reoli a chynllunio casgliadau.

Mae’n bosib eich bod wedi dwyn eich polisïau rheoli casgliadau ynghyd mewn un ddogfen. Gallai’ch cynlluniau ymddangos mewn cynllun rheoli casgliadau ar wahân neu yn eich blaengynllun/cynllun busnes.


Gall sefydliadau mwy ddilyn *PAS 197:2009 Code of practice for cultural collections management* a datblygu cyfres o bolisiau ar gyfer pob agwedd ar y gwaith o ddatblygu casgliadau, cofnodi casgliadau, gofalu am gasgliadau, a gwarchod a mynediad i gasgliadau.

Ym mhob achos bydd angen i chi gyfeirio at y ddogfen neu adran berthnasol ar y ffurflen gais.



4 Cadw a datblygu casgliadau

I fodloni'r safon, byddwch angen cyflwyno tystiolaeth bod gennych chi bob un o'r canlynol:



4.1 Ysgwyddo cyfrifoldeb dros yr holl gasgliadau rydych chi'n eu rheoli

	Pob amgueddfa	
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
4.1 Ysgwyddo cyfrifoldeb dros yr holl gasgliadau rydych chi'n eu rheoli	Er mwyn bod yn gyfrifol am eich casgliadau mae angen i chi wybod beth sy'n eiddo i'r amgueddfa a pha gasgliadau sydd ar fenthyg a sicrhau bod gennych chi ddogfennau cyfredol am fenthyciadau. Mae cytundebau perchnogaeth a benthyg a/neu reoli cadarn yn hollbwysig ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor eich amgueddfa.	Bydd gofyn i chi gadarnhau maint eich casgliad, y gyfran sy'n eiddo i'r amgueddfa, y gyfran sydd ar fenthyg iddi ac a oes unrhyw gytundebau benthyg cysylltiedig yn gyfredol. Os yw'r rhan fwyaf o'ch casgliad ar fenthyg, byddwn yn gofyn i chi egluro'r trefniadau benthyg sydd ar waith ac asesu unrhyw risgiau. Dim ond copïau o gytundebau benthyg allweddol os ydynt yn ymwneud â chyfran sylweddol o gasgliad yr amgueddfa (mwy na 50%) y bydd angen i chi eu lanlwytho.

Dylai dogfennau polisi a gweithdrefnau'ch amgueddfa ddangos a phrofi'n glir drefniadau perchenogaeth y casgliadau cyfredol a phwy fydd yn berchen ar gaffaeliadau newydd i'r casgliadau (gweler 4.2). Yn aml, y corff llywodraethu fydd yn berchen ar fwyaf y casgliadau ond mae'n bosibl y bydd y cyfan o'r casgliadau, neu gyfran helaeth ohonynt, yn eiddo i sefydliad ar wahân neu unigolyn/ unigolion, er enghraifft, awdurdod lleol neu

ymddiriedolaeth casgliadau ar wahân. Os oes gennych chi gasgliadau ar fenthyg, rhaid bod hyd y benthyciad yn briodol a dylai gynnwys adolygiad rheolaidd rhwng yr amgueddfa a'r perchennog. Nid oes gan y term 'benthyciad parhaol' statws cyfreithiol a dylid ei osgoi. Dylech wneud yn siŵr bod gan bob benthyciad gytundeb benthyc tymor penodol sy'n bodloni safonau Spectrum (gweler 5.2).

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn gwirio pa gyfran o'r casgliad sydd ar fenthyg ac a oes cytundebau benthyc cyfredol ar waith. Fel arall, byddwn yn gwirio sut mae perchenogaeth benthyciadau gwaddol yn cael eu rheoli
- Os yw'r rhan fwyaf o'r casgliad ar fenthyg, byddwn eisiau gwybod eich bod yn ymwybodol o'r risgiau cysylltiedig a'ch bod yn eu rheoli
- Byddwn yn croesgyfeirio gyda'ch ymateb i adrannau 4.2 (polisi datblygu casgliadau) a 5.2 (Gweithdrefnau sylfaenol Spectrum) i weld a oes casgliadau lle mae'r berchenogaeth yn amwys wedi'u cynnwys yn eich dogfennau
- Os ydych chi wedi atodi cytundeb lefel gwasanaeth neu gytundeb benthyc/rheoli o bwys, byddwn yn gwirio i weld pwy sy'n gyfrifol am gaffaeliadau newydd a gwarediadau. Dylai'r cytundeb hwn fod wedi'i lofnodi gan y ddau barti.

4.2 Polisi, wedi'i gymeradwyo gan y corff llywodraethu, ar gyfer datblygu casgliadau, gan gynnwys caffael a gwaredu

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
4.2 Polisi, wedi'i gymeradwyo gan y corff llywodraethu, ar gyfer datblygu casgliadau, gan gynnwys caffael a gwaredu	Mae'r polisi'n sail i'r gwaith o ddatblygu'ch casgliadau. Mae'n dangos sut mae gweithgareddau datblygu'ch casgliadau (caffael, arfarnu, tynnu eitemau, gwerthu) yn cysylltu'n glir â'ch datganiad o bwrpas; yn bodloni ymrwymïadau moesegol a gofynion cyfreithiol. Mae defnyddio'r templed Achredu fel sail eich polisi yn golygu bod gan amgueddfeydd iaith gyffredin mewn perthynas â chaffael a gwaredu.	Rhaid i'ch polisi datblygu casgliadau gynnwys: - Eich datganiad o bwrpas - Hanes y casgliadau - Trosolwg o'r casgliadau cyfredol - Themâu a blaenoriaeth ar gyfer casglu yn y dyfodol - Themâu a blaenoriaethau ar gyfer rhesymoli a gwaredu - Gwybodaeth am y fframwaith cyfreithiol a moesegol ar gyfer caffael a gwaredu - Cyfeiriad at bolisiau casglu amgueddfeydd eraill lle'r ydych yn casglu yn yr un meysydd neu bynciau neu rai cysylltiedig. Cyfeiriad at unrhyw gysylltiadau casglu ffurfiol, er enghraifft, cytundebau caffael ar y cyd ac ati - Dyddiad adolygu Bydd gofyn i chi gyflwyno copi o'ch polisi datblygu casgliadau gyda chymeradwyaeth wedi'i llofnodi. Os oes gennych chi fframwaith polisi rheoli casgliadau, bydd angen i chi ddweud wrthym ble mae dod o hyd i fanylion am ddatblygu casgliadau. Os ydych chi wedi cyhoeddi elfennau o'ch polisi datblygu casgliadau ar wahân, er enghraifft, datganiad ysbeilio neu bolisi diwydrwydd dyladwy, yna mae angen i chi ddarparu dolenni i'r dogfennau cyhoeddedig gyda chymeradwyaethau perthnasol.

Defnyddiwch dempled yr Achrediad ar gyfer polisi datblygu casgliadau ochr yn ochr â'r nodiadau canllaw hyn.

Nodiadau canllaw ymarferol: pa dempled ddylem ni ei ddefnyddio?

Os yw'ch polisi wedi cael ei adolygu ers Mai 2014, byddwn yn disgwyl iddo gael ei ddiweddarau i dempled 2014. Mae fersiynau cynharach o'r templed wedi cael eu disodli gan y fersiwn hon.

Mae templed 2014 yn disodli'r templed cynharach a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2011 a phob fersiwn flaenorol o dempled y polisi caffaeliadau a gwarediadau. Cafodd ei ailargraffu ym mis Tachwedd 2018 i ategu Safon Achredu 2018.

Dylai polisiâu datblygu casgliadau gael eu hadolygu bob pum mlynedd o leiaf. Mae'n syniad da gwneud dyddiadau cychwyn a gorffen y polisi yn amlwg iawn ar eich dogfen.

Datblygwyd templed ein polisi datblygu casgliadau i helpu amgueddfeydd i gynhyrchu polisi cadarn

ac effeithiol, sy'n berthnasol i'w casgliadau a'u datganiad o bwrpas. Mae ein templed yn cynnwys cymalau safonol (mewn teip tywyll) y dylai pob amgueddfa eu cynnwys. Mae llawer o'r rhain yn ymwneud â chyfrifoldebau cyfreithiol amgueddfeydd fel y'u nodir mewn Deddfau Seneddol neu Gonfensiynau Rhyngwladol y mae'r DU wedi'u llofnodi. Mae'r cymalau safonol yn ein templed wedi cael eu gwirio fel nad oes rhaid i amgueddfeydd fynd ati i gael cyngor cyfreithiol ar wahân. Byddwn yn darllen eich polisi'n drylwyr ac yn gwirio gyda chrib fân nad oes unrhyw newidiadau i gymalau'r templed yn gwanhau ystyr y geiriau.

Nodiadau canllaw ymarferol: ble allwn ni ddod o hyd i'r templed?

Mae'r templed ar gael i'w lawrlwytho ar-lein, gan y sefydliad sy'n asesu'ch Achrediad neu'ch darparwr Datblygu Amgueddfa.

	Sefydliadau asesu
Cymru	Llywodraeth Cymru https://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/museums-archives-libraries/?skip=1&lang=cy
Lloegr	Arts Council England https://www.artscouncil.org.uk/supporting-arts-museums-and-libraries/museums-accreditation-scheme Darparwyr Datblygu Amgueddfa rhanbarthol https://www.artscouncil.org.uk/museum-development-programme/museum-development-providers
Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel	Arts Council England https://www.artscouncil.org.uk/supporting-arts-museums-and-libraries/museums-accreditation-scheme
Gogledd Iwerddon	Northern Ireland Museums Council https://www.nimc.co.uk/
Yr Alban	Museums Galleries Scotland https://www.museumsgalleriesscotland.org.uk/

Nodiadau canllaw ymarferol: sut mae llenwi'r templed?

Dylid darllen y nodiadau hyn ochr yn ochr â'r templed i'ch helpu i ysgrifennu, adolygu neu ddiweddarw'ch polisi eich hun. Mae'r testun italig yn y templed yn dangos i chi ble mae ychwanegu'ch testun eich hun a chynnwys manylion eich amgueddfa. Mewn rhai achosion, gallwch ddewis o blith gwahanol baragraffau neu gymalau felly dewiswch yr opsiwn sy'n cyd-fynd â pholisi'ch amgueddfa.

Hefyd, gallwch addasu'ch polisi i ddewis y cymalau sy'n briodol i'ch sefydliad Achredu perthnasol: yng Nghymru, Llywodraeth Cymru yw hwn, ar gyfer amgueddfeydd yn Lloegr, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel, Arts Council England yw hwn, yn yr Alban, Museums Galleries Scotland yw hwn ac yng Ngogledd Iwerddon y Northern Ireland Museums Council yw hwn.

1 Cyflwyniad

Dylai'r adran hon gynnwys datganiad o bwrpas yr amgueddfa gan y bydd eich gwaith o ddatblygu casgliadau yn cael ei lywio gan hyn. Disgrifiwch pa bolisiau neu gynlluniau eraill y mae'n berthnasol iddynt ac ar gyfer pwy mae e.

2 Hanes y casgliadau

Mae'r adran hon yn adolygu hanes eich casgliad. A oes unrhyw gerrig milltir allweddol yn y gwaith o ddatblygu'ch casgliadau fel caffaeliadau arwyddocaol neu guraduron a rhoddwyr arbennig o ddylanwadol? A oes newid mawr wedi bod yn ffocws y casgliadau? Os felly, amlinellwch y rhain a disgrifiwch unrhyw warediadau allweddol (lle bo'n berthnasol).

3 Trosolwg o'r casgliadau cyfredol

Mae'r adran hon yn ystyried cryfderau a gwendidau'ch casgliadau, a'r defnydd cyfredol ohonynt. Disgrifiwch beth sydd yn y casgliad sydd ar gael i'r cyhoedd, ei faint, ei gwmpas a'i arwyddocâd. A oes unrhyw feysydd sy'n

arbennig o gryf? Pa fath o gasgliad sydd gennych? Sut mae'ch casgliad yn cyd-fynd â'ch datganiad o bwrpas ac amcanion allweddol? A oes unrhyw rannau o'ch casgliad nad ydynt yn cyd-fynd â'r rhain? Dylech gynnwys unrhyw ddeunydd nad ydych wedi ei arddangos i'r cyhoedd ac eglurwch pam rydych wedi penderfynu nad yw'n briodol, er enghraifft, casgliadau cyffwrdd neu gasgliadau dirprwyol.

4 Themâu a blaenoriaethau ar gyfer casglu yn y dyfodol

Beth yw'ch blaenoriaethau ar gyfer casglu? Beth ydych chi'n bwriadu ei gasglu a pham? Sut mae hyn yn berthnasol i'ch datganiad o bwrpas a'ch blaengynllun/cynllun busnes? A oes unrhyw gyfyngiadau ar hyn ac os felly, pam?

Bydd bod yn glir am hyn yn helpu i lywio penderfyniadau strategol ac yn helpu i gefnogi gweithdrefnau mynediad gwrthrychau ymarferol.

5 Themâu a blaenoriaethau ar gyfer rhesymoli a gwaredu

Beth yw'ch dull? Pa rannau o'r casgliadau fydd yn cael eu hystyried ar gyfer eu rhesymoli a'u gwaredu a pham? A oes unrhyw gyfyngiadau ar hyn ac os felly, pam? Er enghraifft, nid yw'n cael ei ganiatáu yn amodau llywodraethu neu amodau rhoddion eich amgueddfa.

Gallech ddweud wrthym hefyd os nad yw hyn yn flaenoriaeth yng nghyfnod eich polisi (nid oes rhesymoli a gwaredu gweithredol). Mae'n bosibl y bydd angen i chi waredu gwrthrychau am resymau cyfreithiol, diogelwch, gofal a chadwraeth (er enghraifft, ysbeilio, ymbelydredd, plâu, dychwelyd i'w gwlad wreiddiol). Dyma rai materion y gallech eu hystyried yn eich polisi.

6 Gwybodaeth am y fframwaith cyfreithiol a moesegol ar gyfer caffael a gwaredu

Mae'r adran hon yn disgrifio'r fframweithiau cyfreithiol a moesegol y mae'r amgueddfa'n gweithio oddi mwn iddynt. Mae'r paragraff safonol yn cyfeirio at God Moeseg Cymdeithas

yr Amgueddfeydd, sef y safon ofynnol. Rydym wedi rhoi sylw i ofyniad elfennau cyfreithiol a moesegol sylfaenol pob amgueddfa Achrededig yn nhestun y templed felly dyna pam rydym yn eich annog i'w ddefnyddio. Gallwch ychwanegu rhagor yn yr adran hon, lle bo'n briodol.

7 Polisiâu casglu amgueddfeydd eraill

Yn yr adran hon rhestrwch unrhyw amgueddfeydd rydych chi'n ceisio gweithio gyda nhw i osgoi dyblygu ymdrech neu wastraffu adnoddau, neu'n gweithio mewn partneriaeth â nhw i brynu ar y cyd. A oes unrhyw amgueddfeydd eraill yn casglu yn yr un ardal â chi neu sy'n agos yn ddaearyddol? Gallai hwn fod yn gytundeb casglu ffurfiol gydag amgueddfa arall fel cytundeb caffael ar y cyd.

8 Daliadau archifol

Mae'r cymal hwn yn un dewisol yn y polisi enghreifftiol yn dibynnu ar a oes gan yr amgueddfa, neu a oes ganddi fwriad i gasglu deunydd a allai gael ei ystyried yn ddeunydd archifol, er enghraifft, dogfennau a ffotograffau – rhai papur a rhai digidol. Os felly, disgrifiwch eich sail resymegol dros ddatblygu'r casgliad hwn a sut byddwch yn mynd ati i wneud hynny.

Hwyrach y bydd amgueddfeydd â deunydd archifol am fwrw golwg ar y Cynllun Achredu Gwasanaethau Archif ar gyfer y casgliadau hyn hefyd.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/archives-sector/archive-service-accreditation/>

9 Caffael

Defnyddiwch yr adran hon i ddisgrifio'ch polisi awdurdodi ar gyfer cytuno ar gaffaeliadau. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys lefelau dirprwyo yn ymwneud â chostau caffael. Mae paragraffau safonol i'w cynnwys yn yr adran hon.

10 Gweddillion dynol

Waeth a yw'ch amgueddfa yn cynnwys neu'n casglu gweddillion dynol, bydd angen i chi

ddewis o blith y paragraffau safonol yn y templed o hyd. Gallwch ymhelaethu ar hyn os oes gennych weddillion dynol yn y casgliad neu'ch bod yn bwriadu eu casglu.

11 Deunydd biolegol a daearegol

Dewiswch y paragraff priodol ar gyfer eich amgueddfa.

12 Deunydd archaeolegol

Bydd angen i chi ddewis o blith y paragraffau yn yr adran hon, fel sy'n briodol.

13 Eithriadau

Mae'r adran hon yn amlinellu pryd gallai eithriadau i'r polisi casglu ehangach sy'n ymwneud ag amgylchiadau eithriadol godi. Rydym wedi cynnwys paragraff safonol ar gyfer hyn.

14 Ysbeilio

Mae'r adran hon yn disgrifio'ch polisi yn ymwneud ag ysbeilio gweithiau celf yn ystod yr Holocost a'r Ail Ryfel Byd. Rydym wedi cynnwys paragraff safonol ar gyfer hyn felly dewiswch yr un sy'n berthnasol i'ch trefniadau llywodraethu.

15 Gwrthrychau a gweddillion dynol – dychwelyd i'w gwlad wreiddiol ac adfer

Mae'r adran hon yn disgrifio polisi'ch amgueddfa mewn perthynas â dychwelyd gwrthrychau a gweddillion dynol. Bydd angen i chi ddewis o blith y paragraffau yn yr adran hon, fel sy'n briodol.

16 Gweithdrefnau gwaredu

Mae'r adran hon yn cadarnhau bod gennych chi ddull wedi'i gytuno a'i gymeradwyo ar waith ar gyfer tynnu gwrthrychau o'ch casgliadau hirdymor. Gallwch ddewis pa baragraffau i'w defnyddio o'r adran gwaredu drwy gyfnwio (16.13).

Mae'n bwysig defnyddio'r paragraffau safonol gan fod y rhain hefyd yn cyd-fynd â phecyn cymorth Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar gyfer gwaredu a gweithdrefnau Spectrum.

Amgueddfeydd cenedlaethol

Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw

Os yw'ch amgueddfa'n un genedlaethol neu'n un genedlaethol mewn enw, byddwn yn gofyn i chi egluro hefyd sut mae pwysigrwydd cenedlaethol a diddordeb rhyngwladol eich casgliad yn cefnogi'ch enw ac amcanion datganedig. Byddwn yn disgwyl i'ch polisi roi sylw i'ch dull o gasglu eitemau ag arwyddocâd a phwysigrwydd cenedlaethol a gwybodaeth gysylltiedig.


Bydd angen i chi gyflwyno rhestr o gaffaeliadau o'r 12 mis diwethaf.

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn gwirio bod y polisi'n gydnaws â'r datganiad o bwrpas a'i fod yn gymesur
- Byddwn yn gwirio bod y polisi'n cydymffurfio â'r cymalau cyfreithiol a moesegol gofynnol yn y templed
- Os nad yw cyfansoddiad eich amgueddfa'n caniatáu cynnwys yr holl gymalau gofynnol byddwn yn gwirio bod mesurau diogelu ar waith i sicrhau bod y casgliad yn cael ei ddiogelu yn yr hirdymor, a'r cyfrifoldeb am weithdrefnau caffael a gwaredu
- Byddwn yn gwirio bod y disgrifiad o'r casgliadau'n rhoi trosolwg clir i lywio caffael a/neu waredu yn y dyfodol fel sy'n briodol
- Byddwn yn gwirio ei fod yn cynnwys gwybodaeth briodol am resymoli a gwaredu
- Byddwn yn gwirio eich bod chi wedi cynnwys cylchoedd gwaith casglu perthnasol amgueddfeydd, swyddfeydd cofnodion lleol ac archifdai eraill
- Byddwn yn gwirio bod cymeradwyaeth wedi'i llofnodi ar gyfer eich polisi
- Os yw'r casgliad yn eiddo i sefydliad ar wahân fel y'i disgrifir mewn cytundeb benthyg neu reoli, mae'n bosib y bydd angen i ni wirio cymeradwyaethau gan y corff sy'n berchen ar y casgliad a'r corff sy'n rheoli'r casgliad. Mae'n dibynnu ar sut mae'ch pwerau cymeradwyo polisiâu wedi cael eu dirprwyo
- Byddwn yn gwirio bod eich polisi'n cwmpasu cyfnod clir o amser a'i fod wedi cael ei adolygu yn y pum mlynedd diwethaf

5 Cadw gwybodaeth ddefnyddiol a defnyddiadwy am gasgliadau

I fodloni'r safon, byddwch angen cyflwyno tystiolaeth fod gennych chi bob un o'r canlynol:



5.1 Polisi dogfennaeth cymeradwy

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
5.1 Polisi dogfennaeth cymeradwy	Mae'r polisi neu'r datganiad yn sicrhau bod eich gweithgareddau dogfennaeth casgliadau yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol a defnyddiadwy i chi, yn gysylltiedig â'ch datganiad o bwrpas, ac yn bodloni ymrwymïadau moesegol a gofynion cyfreithiol.	Dylai'r polisi neu'r datganiad dogfennaeth geisio rhoi sylw i'r meysydd canlynol: - Atebolrwydd – sicrhau eich bod chi'n cofnodi digon o wybodaeth am y gwrthrychau yng ngofal eich amgueddfa fel bod modd adnabod a chanfod pob gwrthrych rydych chi'n gyfrifol amdano'n gyfreithiol (yn cynnwys eitemau ar fenthyg) - Safonau mewn gweithdrefnau a phrosesau – gydag ymrwymiad i gynnal safonau proffesiynol gofynnol, er enghraifft Spectrum - Hygyrchedd – dylai'r polisi ddiffinio mynediad at wybodaeth am gasgliadau ar gyfer eich cymuned defnyddwyr - Diogelwch – drwy sicrhau bod mesurau ar waith i sicrhau diogelwch ffisegol cofnodion dogfennaeth a'u cadwraeth yn yr hirdymor, boed yn rhai papur neu'n rhai digidol yn cynnwys creu copïau wrth gefn a chyfleusterau storio diogel Dylai'r polisi gael ei adolygu a'i ailgymeradywo gan eich corff llywodraethu bob pum mlynedd o leiaf. Byddwch yn cael cais am gopi o'ch polisi neu ddatganiad dogfennaeth gyda chymeradwyaeth wedi'i llofnodi. Os oes gennych chi fframwaith polisi rheoli casgliadau, dywedwch wrthym ble mae dod o hyd i fanylion dogfennaeth casgliadau ynddo.

Dylai'r polisi ystyried y ffaith bod systemau electronig yn gallu dyddio a sicrhau bod y wybodaeth sydd yn nwylo'r amgueddfa yn hygyrch yn yr hirdymor. Er enghraifft, a fydd y system rydych chi'n ei defnyddio ar hyn o bryd yn hygyrch ymhén 10 mlynedd?

Os ydych chi'n defnyddio trydydd parti i weithredu'ch amgueddfa, dylai fod perthynas glir rhwng y cytundeb rheoli a'r polisi dogfennaeth

casgliadau. Dylai mecanweithiau ar gyfer archwilio dogfennaeth casgliadau yn erbyn safonau gofynnol fod yn amlwg yn y cytundeb rheoli. Mae'n bwysig bod gan y ddau barti rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio ar wahân fel nad oes unrhyw ddyblygu a'i bod yn amlwg pwy sy'n gyfrifol am feysydd gwahanol fel ceisiadau a rheoli data.

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn gwirio bod y polisi yn briodol i faint a graddfa'r amgueddfa ac yn gymesur â'ch blaengynllun/cynllun busnes ehangach a'r adnoddau sydd ar gael
- Byddwn yn gwirio bod y polisi'n gydnaws â datganiad o bwrpas a nodau allweddol eich amgueddfa
- Byddwn yn gwirio bod cymeradwyaeth wedi'i llofnodi o'ch polisi
- Byddwn yn gwirio bod y polisi'n defnyddio'r canllawiau polisi perthnasol yn Spectrum
- Byddwn yn gwirio bod y polisi'n adlewyrchu gofynion cytundeb rheoli (lle mae gweithrediadau amgueddfa'n cael eu rhoi i drydydd parti i'w cyflawni)
- Byddwn yn gwirio bod y polisi'n cwmpasu cyfnod clir a'i fod wedi cael ei adolygu yn y pum mlynedd diwethaf

5.2 Dilyn gweithdrefnau dogfennaeth sylfaenol Spectrum

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
5.2 Dilyn gweithdrefnau dogfennaeth sylfaenol Spectrum	Mae gweithdrefnau sylfaenol Spectrum yn hanfodol ar gyfer rheoli casgliadau'n effeithiol, sicrhau atebolrwydd i'ch corff llywodraethu, rhanddeiliaid a chyllidwyr, ac yn eich galluogi chi i'w gwneud yn hygyrch i'r rheini sydd am eu defnyddio. Mae'n bwysig i randdeiliaid wybod bod casgliadau'n cael eu dogfennu'n ddigonol a bod yr amgueddfa'n dilyn safonau amgueddfa ar gyfer gwybodaeth am gasgliadau.	Dylai'ch llawlyfr ar weithdrefnau dogfennaeth roi sylw i'r gweithdrefnau dogfennaeth sylfaenol yn safon Spectrum: - Gwrthrychau sy'n cyrraedd - Caffael a derbyniadau - Lleoliad a rheoli symudiadau - Rhestr eiddo - Catalogio - Gwrthrychau sy'n gadael - Benthyciadau i mewn (benthyca gwrthrychau) - Benthyciadau allan (rhoi gwrthrychau ar fenthyg) - Cynllunio dogfennaeth Dylech gynllunio i wella cywirdeb dogfennaeth a pha mor ddefnyddiadwy ydyw dros amser. Bydd angen i chi gadarnhau eich bod wedi gweithredu gweithdrefnau sylfaenol Spectrum a bod gennych llawlyfr yn amlinellu cyfarwyddiadau cam-wrth-gam ar gyfer cwblhau'r gweithdrefnau yn eich amgueddfa. Bydd angen i chi ddweud wrthym a ydych wedi cwblhau'r safon Spectrum ar gyfer <i>Rhestr eiddo</i> ac os na, pryd rydych chi'n disgwyl ei chwblhau.


Os byddwn yn gofyn, bydd angen i chi gyflwyno'ch cynllun dogfennaeth ysgrifenedig. Os byddwn yn ymweld â chi, byddwn yn gofyn am gael gweld eich llawlyfr gweithdrefnau dogfennaeth ac yn gofyn i chi ddangos y gweithdrefnau ar waith.

Am beth rydym ni’n chwilio

- Byddwn yn edrych ar sut rydych chi’n gweithredu’r gweithdrefnau sylfaenol yn safon Spectrum
- Byddwn yn gwirio bod eich llawlyfr gweithdrefnau dogfennaeth yn gyfredol
- Byddwn yn gwirio a ydych chi wedi bodloni safon Spectrum ar gyfer *Rhestr eiddo* ac os na, byddwn am wybod sut rydych chi’n bwriadu datrys unrhyw waith sydd wedi ôl-gronni mewn perthynas â’r rhestr eiddo. Byddwch yn gallu esbonio hyn yn eich cynllun dogfennaeth gydag amserlenni cwblhau
- Byddwn am wybod sut rydych chi’n bwriadu datblygu dogfennaeth eich casgliad a bod gennych chi gynllun ysgrifenedig sy’n dangos blaenoriaethau ac amserlenni fel y’u disgrifir yn y safon Spectrum ar gyfer *Cynllunio dogfennaeth*

6 Gofal a chadwraeth casgliadau

I fodloni’r safon, byddwch angen cyflwyno tystiolaeth bod gennych bob un o’r canlynol:



6.1 Polisi cymeradwy ar ofal a chadwraeth casgliadau

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
6.1 Polisi cymeradwy ar ofal a chadwraeth casgliadau	Mae'r polisi neu'r datganiad yn dangos sut mae'ch gweithgareddau gofal a chadwraeth casgliadau yn sicrhau bod casgliadau'n cael eu diogelu yn yr hirdymor, yn cysylltu â'ch datganiad o bwrpas, ac yn bodloni ymrwymïadau moesegol a gofynion cyfreithiol. Mae'r polisi'n amlinellu'r ddyletswydd gofal a chyfrifoldebau mewn perthynas â'r casgliad.	Dylai'ch polisi neu'ch datganiad fod yn seiliedig ar gyfuniad o gadwraeth ataliol ac adferol, a nod y ddau fath yw diogelu gwrthrychau yn yr hirdymor. Dylai'r polisi gynnwys: - Safonau - y safonau a'r fframweithiau perthnasol rydych chi'n eu defnyddio i ofalu am eich casgliadau, er enghraifft <i>Benchmarks in Collections Care</i> - Arbenigedd – sut rydych chi'n cael cyngor rheolaidd gan arbenigwyr gofal a chadwraeth casgliadau, boed yn fewnol neu'n llawrydd - Casgliadau arbenigol - gweithdrefnau penodol ar gyfer casgliadau arbenigol, er enghraifft, casgliadau peiriannau hanesyddol sy'n gweithio neu gasgliadau byd natur - Cyfathrebu – sut mae'r polisi'n cael ei gyfathrebu i'ch gweithlu, contractwyr a defnyddwyr Dylai'r polisi gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan eich corff llywodraethu bob pum mlynedd o leiaf. Bydd angen i chi gyflwyno copi o'ch polisi neu ddatganiad gofal a chadwraeth casgliadau gyda chymeradwyaeth wedi'i llofnodi. Gall eich polisi gofal a chadwraeth polisi fod yn rhan o'ch fframwaith rheoli casgliadau ehangach, cynllunio gofal a chadwraeth, neu yn eich blaengynllun neu gynllun busnes – os felly nodwch y ddogfen a'r dudalen ar ein cyfer.

Mae dau fath o gadwraeth:

- Mae cadwraeth ataliol yn cynnwys y mesurau i arafu neu leihau dirywiad gwrthrychau a sbesimenau a strwythurau amgueddfa
- Mae cadwraeth adferol yn golygu trin gwrthrych neu sbesimen i ddod ag ef i gyflwr mwy derbyniol i'w sefydlogi neu i wella rhai agweddau ar ei werth diwylliannol neu wyddonol.

Lle mae'r gwaith o weithredu'r amgueddfa wedi cael ei roi i drydydd parti fe ddylai fod perthynas

glir rhwng y cytundeb rheoli a'r polisi gofal a chadwraeth casgliadau. Dylai mecanweithiau ar gyfer archwilio cyflwr casgliadau yn erbyn safonau gofynnol gael eu hamlinellu'n glir yn y cytundeb rheoli. Mae'n bwysig bod gan y ddau barti rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio ar wahân fel nad oes unrhyw ddyblygu a'i bod yn amlwg pwy sy'n gyfrifol am wahanol elfennau fel yswiriant, cadwraeth a chynnal a chadw.

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn gwirio bod y polisi yn briodol ar gyfer amgueddfa o'ch maint a'r math o amgueddfa yw hi a'i fod yn gymesur â'ch blaengynllun/cynllun busnes ehangach a'r adnoddau sydd ar gael
- Byddwn yn gwirio bod y polisi'n gydnaws â datganiad o bwrpas a nodau allweddol eich amgueddfa
- Byddwn yn edrych ar ba mor briodol yw'r polisi ar gyfer y mathau o ddeunydd yn eich casgliadau
- Byddwn yn gwirio eich bod wedi amlinellu'ch trefniadau ar gyfer cael cyngor priodol ar ofal a chadwraeth casgliadau
- Byddwn yn gwirio bod gan eich polisi gymeradwyaeth wedi'i llofnodi
- Byddwn yn gwirio bod y polisi'n adlewyrchu gofynion cytundeb rheoli (lle caiff gweithrediadau amgueddfa eu rhoi yn nwylo trydydd parti)
- Byddwn yn gwirio bod y polisi'n cwmpasu cyfnod clir a'i fod wedi cael ei adolygu o fewn y pum mlynedd diwethaf

6.2 Cynllun gofal a chadwraeth casgliadau

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
6.2 Cynllun gofal a chadwraeth casgliadau	Mae gofalu am gasgliadau yn ymrwymiad hirdymor. Mae cynllun gofal a chadwraeth casgliadau yn amlinellu'ch blaenoriaethau a gweithgareddau a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni.	Bydd gofyn i chi gadarnhau'r elfennau sydd wedi'u cynnwys yn eich cynllun gofal a chadwraeth casgliadau. Dylech fod â chynllun i gynnal a, lle bo modd, gwella'ch ffordd o ofalu am eich casgliadau dros amser. Dylid pennu blaenoriaeth drwy gynnal adolygiadau ac asesiadau rheolaidd, gan roi sylw i gyflwr y casgliadau a'r amgylchedd lle maent yn cael eu storio. Yr argymhellion sy'n deillio o'r broses hon fydd sail cynllun gweithredu sy'n pennu blaenoriaethau ac amserlenni. Mae'r meysydd rydym yn disgwyl i chi roi sylw iddynt yn eich cynllun wedi'u hamlinellu yn ôl mathau o amgueddfa isod. Gall eich cynllun gofal a chadwraeth casgliadau fod yn ddogfen ar wahân neu'r rhan o'ch fframwaith rheoli casgliadau ehangach, neu yn eich blaengynllun neu gynllun busnes.

Amgueddfeydd annibynnol – mathau 1-2

Dylai cynllun cadwraeth sylfaenol gynnwys:

- Trosolwg o drefniadau gofal a chadwraeth casgliadau cyfredol
- Ymwybyddiaeth o anghenion casgliadau yn cynnwys eitemau bregus a blaenoriaethau gweithredu gydag amserlenni
- Trefniadau ar gyfer cyflwr a chynnal a chadw'r adeilad i sicrhau bod yr adeilad yn cyfrannu at ddarparu amodau amgylcheddol priodol ar gyfer gwahanol elfennau'r casgliad
- Sut rydych chi'n nodi'r prif fygythiadau i'r casgliadau sy'n cael eu harddangos a'u storio
- Trefniadau ar gyfer rheoli plâu, glanhau ac arolygu rheolaidd, technegau, deunyddiau ac offer pacio a storio priodol
- Trefniadau ar gyfer monitro a rheoli'r amgylchedd a chynnal a chadw offer yn y lleoliadau lle mae gennych gasgliadau
- Pa adnoddau sydd ar gael? Pwy sy'n gwneud hyn, pa hyfforddiant maent yn ei gael a sut rydych chi'n cael cyngor cadwraeth proffesiynol?

Amgueddfeydd annibynnol – math 3

Amgueddfeydd awdurdod lleol – mathau 1-3

Amgueddfeydd prifysgol – mathau 1-3

Amgueddfeydd cenedlaethol

Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw

Dylai'r cynllun gynnwys:

- Trosolwg o drefniadau gofal a chadwraeth casgliadau cyfredol
- Ymwybyddiaeth o anghenion casgliadau yn cynnwys eitemau bregus a blaenoriaethau gweithredu gyda rhaglen wedi'i chynllunio o waith cadwraeth adferol ac ataliol
- Trefniadau ar gyfer cyflwr a chynnal a chadw'r adeilad i sicrhau bod yr adeilad yn cyfrannu at ddarparu amodau amgylcheddol priodol ar gyfer gwahanol elfennau'r casgliad
- Sut rydych chi'n nodi'r prif fygythiadau i'r casgliadau sy'n cael eu harddangos a'u storio?
- Ar beth mae'ch cynllun yn seiliedig? Er enghraifft, arolygon casgliadau fel *Benchmarks for Collections Care*
- Trefniadau ar gyfer rheoli plâu, glanhau ac arolygu rheolaidd, technegau, deunyddiau ac offer pacio a storio priodol
- Trefniadau ar gyfer monitro a rheoli'r amgylchedd a chynnal a chadw offer yn y lleoliadau lle mae gennych gasgliadau yn cynnwys pa mor aml mae'r monitro'n digwydd
- Pa adnoddau sydd ar gael? Pwy sy'n gwneud hyn, pa hyfforddiant maent yn ei gael a sut rydych chi'n cael cyngor cadwraeth proffesiynol (boed yn fewnol neu gontract/llawrydd)?
- Trefniadau ar gyfer cyflogi gweithwyr cadwraeth contract/ llawrydd
- Cyfnodau adolygu a chymau gweithredu wedi'u hamserlenni

Os byddwn am gael ei weld neu os byddwn yn ymweld â chi, bydd angen i chi gyflwyno'ch cynllun gofal a chadwraeth ysgrifenedig.


Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn edrych ar ba mor briodol y mae'r cynllun i faint eich amgueddfa a chyfansoddiad eich casgliadau
- Byddwn eisiau deall sut mae'ch cynllun wedi cael ei ddatblygu. Beth ydych chi wedi'i ddefnyddio i flaenoriaethu'ch anghenion neu i fod yn sail i'ch cynlluniau?
- Byddwn yn gwirio bod y cynllun yn cynnwys trosolwg o drefniadau gofal a chadwraeth casgliadau cyfredol, ei fod yn cynnwys amserlenni, ac yn nodi'r bobl, yr offer a'r adnoddau sydd ar gael i weithredu'ch cynllun
- Byddwn yn gwirio bod y gweithlu ac unrhyw weithwyr contract sy'n ymwneud â gofal a chadwraeth y casgliad yn ymwybodol o'r cynllun ac wedi cael hyfforddiant i'w weithredu


Nodiadau canllaw ar gyfer gofynion 7-9 y Safon Achredu – Defnyddwyr a'u Profiadau

Mae tri gofyniad olaf y Safon Achredu’n edrych ar sut rydych yn ymgysylltu â’ch defnyddwyr. Mae’n cwmpasu sut rydych chi’n gwneud casgliadau’n hygyrch i’r cyhoedd, sut rydych chi’n deall ac yn datblygu’ch cynulleidfa a sut rydych chi’n ymgysylltu â nhw i roi profiad gwell iddynt. Gall agweddau gwmpasu agweddau ar 7, 8 a 9 mewn dogfennau polisi trosfwaol sy’n ymwneud

â chynulleidfaoedd a mynediad. Gall eich cynlluniau gael eu cynnwys yn eich blaengynllun neu gynllun busnes neu mewn cynllun penodol ar gyfer mynediad, datblygu cynulleidfaoedd neu ddysgu ac ymgysylltu. Ym mhob achos bydd angen i chi gyfeirio at y ddogfen neu adran berthnasol ar y ffurflen gais.



7 Bod yn hygyrch i’r cyhoedd



7.1 Polisi mynediad cymeradwy

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
7.1 Polisi mynediad cymeradwy	Bydd y bobl sy'n defnyddio'ch adeiladau, safleoedd, rhaglenni, casgliadau, a'r wybodaeth gysylltiedig sydd gennych amdanynt, angen gallu, cael mynediad i'ch gwasanaethau. Mae hyn yn rhan hanfodol o ddarparu gwasanaeth i'ch defnyddwyr. Bydd eich polisi neu ddatganiad mynediad yn dangos sut mae'ch darpariaeth mynediad yn cysylltu â'ch datganiad o bwrpas ac yn bodloni ymrwymïadau moesegol a gofynion cyfreithiol.	Dylai fod gan eich amgueddfa bolisi neu ddatganiad mynediad. Dylai gael ei lywio gan asesiad mynediad a chael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'ch defnyddwyr. Yn aml mae'ch polisi neu ddatganiad mynediad yn ddogfen rheoli mewnol felly nid yw'r un fath â gwybodaeth am fynediad i ymwelwyr. Bydd y polisi neu'r datganiad yn cynnwys: • Sut rydych chi'n nodi gwahanol anghenion defnyddwyr ac yn darparu mynediad ar eu cyfer • Gwybodaeth am yr ystod o ddulliau dehongli rydych chi'n eu defnyddio i arddangos y casgliadau • Gwybodaeth am sut rydych chi'n galluogi mynediad cyhoeddus i'r casgliadau, adeiladau a safleoedd, a gwybodaeth gysylltiedig • Ystyriaeth o'r defnydd o ieithoedd heblaw Saesneg lle byddai hyn yn gwneud casgliadau'n fwy hygyrch i gymunedau lleol ac ymwelwyr • Sut byddwch yn cydbwysu gofalu am gasgliadau a'u rheoli yn erbyn darparu mynediad • Y dyddiad y byddwch yn adolygu'r polisi nesaf Byddwch chi angen cadarnhau'r cyfnod dan sylw yn eich polisi mynediad a darparu copi o'ch polisi neu ddatganiad mynediad gyda chymeradwyaeth wedi'i llofnodi. Dylai'r polisi gael ei adolygu a'i ailgymeradwyo gan eich corff llywodraethu o leiaf bob pum mlynedd.

Amgueddfeydd annibynnol – mathau 1-3	Dechrau arni
Dylai'ch polisi mynediad ddisgrifio'ch ymrwymiad sefydliadol i gynnig gwasanaeth cynhwysol. Dylech amlinellu sut mae mynediad yn cael ei ddarparu a pha brosesau sydd gennych ar waith i werthuso, monitro, adlewyrchu ac ymateb i anghenion defnyddwyr a datblygu'ch casgliadau, cyfleusterau a gwasanaethau.	
Amgueddfeydd awdurdod lleol – mathau 1-3	
Amgueddfeydd prifysgol – mathau 1-3	Iechyd y Sefydliad
Amgueddfeydd cenedlaethol	
Rhaid i amgueddfeydd awdurdod lleol, prifysgol a chenedlaethol gydymffurfio â Dyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn eich polisi neu ddatganiad dylech hefyd gynnwys y safonau rydych chi wedi'u defnyddio i ddatblygu'ch polisi e.e. PAS 197:2007 Code for cultural collections management. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn sefydlu egwyddor cydraddoldeb iaith ac yn nodi camau penodol i'w dilyn gan gyrff cyhoeddus fel awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac asiantaethau llywodraeth – yn cynnwys sefydliadau y tu allan i Gymru sy'n darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru.	Rheoli Casgliadau
Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw	
Bydd hyn yn berthnasol i'ch math o lywodraethu priodol.	Defnyddwyr a'u Profiadau

Am beth rydym ni'n chwilio	Defnyddwyr a'u Profiadau
- Byddwn yn edrych ar sut mae'r polisi mynediad wedi cael ei gyfathrebu i randdeiliaid a defnyddwyr, er enghraifft, os yw ar gael ar eich gwefan - Byddwn yn gwirio bod y polisi mynediad yn cysylltu â'r blaengynllun neu gynllun busnes ac yn ei lywio - Byddwn yn edrych ar sut mae'r polisi'n rhoi sylw i bob math o fynediad er enghraifft, ffactorau ffisegol, deallusol, synhwyraidd, cymdeithasol, daearyddol, diwylliannol ac ariannol - Byddwn yn edrych ar sut rydych chi wedi darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill mewn ymateb i anghenion cymunedau lleol - Byddwn yn edrych i weld a yw'ch datganiad yn cael ei rannu fel bod defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn gallu ei weld - Byddwn yn gwirio bod y polisi'n cwmpasu cyfnod clir a'i fod wedi ei adolygu yn y pum mlynedd diwethaf - Byddwn yn gwirio bod gan eich polisi gymeradwyaeth wedi'i llofnodi - Byddwn yn edrych ar sut mae'ch asesiad mynediad yn llywio'ch polisi mynediad	Camau nesaf

7.2 Cynllun mynediad

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
7.2 Cynllun mynediad	Er mwyn parhau i fod yn berthnasol i anghenion a disgwyliadau defnyddwyr sy'n newid, dylech gynllunio ar gyfer gwella mynediad ffisegol, synhwyrdd a deallusol i'ch casgliadau a mynediad i'r adeiladau sy'n cynnwys eich casgliadau gan nodi blaenoriaethau, amserlenni ac adnoddau.	Dylai'r cynllun amlinellu blaenoriaethau gweithredu ar sail eich polisi neu ddatganiad mynediad ac argymhellion eich asesiad o fynediad. Gallai'r asesiad o fynediad gynnwys: • Archwiliad mynediad neu restr wirio mynediad • Gwaith gyda grwpiau ffocws, asiantaethau cefnogi, grwpiau eiriolaeth, elusennau, arbenigwyr • Rhestr wirio cyfleusterau • Adolygiad o'r dehongli a'r defnydd o gasgliadau Gall yr asesiad gael ei gyflawni'n fewnol neu gydag arbenigedd allanol. Dylai fod wedi cael ei gynnal o fewn y pum mlynedd diwethaf, neu'n fwy diweddar os bu newid sylweddol i'ch adeiladau neu arddangosiadau. Bydd eich cynllun yn amlinellu'r gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn ar gyfer: • Mynediad cyhoeddus – yn cynnwys sut rydych chi'n darparu gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael ac nad yw ar gael ar gyfer mynediad cyhoeddus; a sut rydych yn darparu mynediad i gasgliadau sy'n cael eu harddangos a'u storio ac i wybodaeth am y casgliadau • Ymchwil – eich gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag ymholiadau ymchwil • Mynediad i gyngor proffesiynol ar gyfer eich sefydliad – ble rydych chi'n cael mynediad at gyngor, yn cael cyngor a help • Hyfforddiant ar gyfer eich gweithlu – sut rydych chi'n sicrhau bod pawb yn ymwybodol o ofynion mynediad


Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
7.2 Cynllun mynediad		Gallai darparu mynediad cyhoeddus gynnwys: • Teithiau tywys, yn cynnwys storfeydd • Sesiynau wedi'u hwyluso ar gyfer ysgolion neu grwpiau • Digwyddiadau hyrwyddo • Sesiynau nodi • Mynediad i'r wefan/casgliadau ar-lein • Cyfleusterau a deunyddiau ymchwil • Catalogau • Adnoddau ar-lein Gall gwella mynediad i'ch adeiladau, safleoedd, casgliadau a gwybodaeth am gasgliadau gynnwys: • Gwelliannau i gyfleusterau • Newidiadau i wella hygyrchedd eich adeilad/safle • Arwyddion • Mwy o fynediad i gasgliadau sy'n cael eu storio • Benthyciadau i sefydliadau eraill • Datblygu adnoddau ar-lein • Trafod casgliadau • Arddangosfeydd dros dro • Adnoddau dysgu, allgymorth, gwasanaethau benthyciadau • Teithiau o amgylch casgliadau Bydd gofyn i chi gadarnhau a ydych chi wedi cael asesiad mynediad yn y pum mlynedd diwethaf. Bydd gofyn i chi gadarnhau'r meysydd sy'n cael sylw yn eich cynllun mynediad a phryd gafodd y cynllun ei adolygu diwethaf. Gall eich cynllun mynediad fod yn ddogfen ar wahân, o fewn eich blaengynllun neu gynllun busnes neu mewn cynllun datblygu cynulleidfa.

Amgueddfeydd cenedlaethol
Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw
Byddwn yn edrych hefyd ar: - Sut rydych chi'n cefnogi amgueddfeydd eraill sy'n gweithio mewn meysydd tebyg - Eich rhaglen ymchwil, pa drefniadau staffio sydd gennych, i gefnogi ymchwil a sut caiff ymchwil ei chyhoeddi

Am beth rydym ni'n chwilio
- Byddwn yn gwirio bod yr asesiad o fynediad wedi cael ei gwblhau o fewn y pum mlynedd diwethaf - Byddwn yn gwirio bod eich cynllun mynediad yn cwmpasu cyfnod clir o amser - Byddwn yn gwirio pa fathau o fynediad i'ch casgliad rydych chi'n ei ddarparu i eraill - Byddwn yn gwirio pa feysydd sy'n cael sylw yn eich cynllun mynediad - Byddwn yn ystyried cydbwysedd y casgliad parhaol sy'n cael ei arddangos, a sut rydych chi'n cynnig mynediad i'r casgliadau nad ydynt yn cael eu harddangos - Byddwn yn ystyried sut rydych chi wedi blaenoriaethu a chynllunio i weithredu argymhellion o'ch asesiad o fynediad

8 Deall a datblygu’ch cynulleidfaoedd

I fodloni’r safon, byddwch angen cyflwyno tystiolaeth bod gennych bob un o’r canlynol:



8.1 Deall pwy sy’n defnyddio’ch amgueddfa, a phwy sydd ddim

Pob amgueddfa		
I fodloni’r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
8.1 Deall pwy sy’n defnyddio’ch amgueddfa, a phwy sydd ddim	Mae casglu gwybodaeth am bwy sy’n defnyddio’ch amgueddfa a phwy sydd ddim yn eich galluogi i ganfod mwy am eu hanghenion a’u disgwyliadau, ac yn eich helpu i gynllunio gwelliannau i sut rydych chi’n darparu’ch gwasanaeth.	Dylech fod yn ymwybodol o’r amrywiaeth o ddefnyddwyr a rhanddeiliaid cyfredol yn seiliedig ar ddata rydych chi wedi’i gasglu am eich cynulleidfia. Hefyd, dylech ymgynghori â’r rhai sy’n defnyddio’ch amgueddfa a’r rhai sydd ddim ar y gwasanaethau rydych chi’n eu darparu a sut gellir diwallu eu hanghenion. Bydd angen i chi gadarnhau pwy yw’r rhai sy’n defnyddio’ch amgueddfa a’r rhai sydd ddim a pha ddulliau rydych chi’n eu defnyddio i gasglu data ac ymgynghori. Er enghraifft, arolwg neu holiadur ymwelwyr. Bydd gofyn i chi gyflwyno’ch cynlluniau cyfredol ar gyfer gwella’ch darpariaeth ar gyfer defnyddwyr cyfredol, a sut rydych chi’n gweithio gyda grwpiau sydd ddim yn cael eu cynrychioli ddigon. Gall eich cynllun fod yn ddogfen ar wahân, yn eich blaengynllun neu gynllun busnes. Os nad oes gennych chi gynllun, bydd angen i chi ddisgrifio hyn ar y ffurflen.

Amgueddfeydd annibynnol – mathau 1-2

Nid oes angen i ymgynghori â’r rhai sy’n eich defnyddio a’r rhai sydd ddim fod yn gostus na llyncu adnoddau.

Mae’n dra phosib eich bod yn casglu’r wybodaeth hon yn rheolaidd yn barod. Hwyrach y bydd rhaid i chi drefnu cyfarfodydd yn ffurfiol drwy gymryd nodiadau a chofnodi safbwyntiau i’w defnyddio i ddatblygu’ch blaengynllun neu gynllun busnes. Hwyrach y byddwch chi am gynnal arolygon neu holiaduron byr gydag ymwelwyr i gasglu data hefyd.

Amgueddfeydd annibynnol – math 3

Dylai amgueddfeydd annibynnol mwy ystyried ymgynghoriad ffurfiol fel grwpiau ffocws rheolaidd o rannau amrywiol o'r cymunedau o bobl sy'n defnyddio'r amgueddfeydd a'r rhai sydd ddim.

Dylech safoni sut rydych chi'n casglu data ledled yr amgueddfa, gyda chategorïau penodol a pherthnasol o wybodaeth yn cael ei nodi a'i chasglu o bob elfen o weithgarwch yr amgueddfa.

Dylech ystyried meincnodi'ch amgueddfa yn erbyn sefydliadau tebyg neu edrych ar eich data eich hun dros amser i olrhain cynnydd.

Amgueddfeydd awdurdod lleol – mathau 1-3

Amgueddfeydd prifysgol – mathau 1-3

Dylech ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennych am eich defnyddwyr cyfredol a'ch dealltwriaeth o brif gynulleidfaoedd eich amgueddfa i lywio'ch blaengynllun neu gynllun busnes ac unrhyw gynlluniau strategol ehangach (fel dysgu, datblygu cynulleidfaoedd, rhaglennu a mynediad i gasgliadau).

Defnyddiwch unrhyw ganllawiau neu ofynion gan eich corff llywodraethu wrth ystyried prosesau ymgynghori a gofynion ymgysylltu â'r cyhoedd.

Dylech safoni sut rydych chi'n casglu data ym mhob rhan o'r amgueddfa, a'ch gwasanaeth, gyda chategorïau penodol a pherthnasol o wybodaeth wedi'i nodi a'i chasglu o bob elfen o weithgareddau'r amgueddfa.

Dylech ystyried meincnodi'ch amgueddfa yn erbyn sefydliadau tebyg neu edrych ar eich data eich hun dros amser i olrhain cynnydd.

Amgueddfeydd cenedlaethol

Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw

Dylech ddefnyddio gwybodaeth sydd gennych ar brif gynulleidfaoedd eich amgueddfa i lywio'ch blaengynllun neu gynllun busnes ac unrhyw gynlluniau strategol ehangach (fel dysgu, datblygu cynulleidfaoedd, rhaglennu a mynediad i gasgliadau).

Gan ddefnyddio amrywiaeth o fecanweithiau sy'n briodol i'r rhai sy'n eu defnyddio a'r rhai sydd ddim, dylai amgueddfeydd cenedlaethol ffurfioli unrhyw ymgynghoriad maent yn ei gynnal. Dylech safoni sut rydych chi'n casglu data ar draws yr amgueddfa, ac unrhyw safleoedd cysylltiedig, gyda chategorïau penodol a pherthnasol o wybodaeth wedi'i nodi a'i chasglu o bob elfen o weithgareddau'r amgueddfa.

Dylech ystyried meincnodi'ch amgueddfa yn erbyn sefydliadau tebyg neu edrych ar eich data eich hun dros amser i olrhain cynnydd.

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn edrych ar eich ffigurau ymwelwyr dros y tair blynedd diwethaf
- Byddwn yn gwirio bod eich blaengynllun neu gynllun busnes yn nodi defnyddwyr cyfredol yr amgueddfa
- Byddwn yn gwirio a yw'r ymgynghoriad â'r rhai sy'n defnyddio'ch amgueddfa a'r rhai sydd ddim yn briodol i faint eich sefydliad a'r math o sefydliad ydyw, er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau sy'n cael eu darparu ac anghenion defnyddwyr
- Byddwn yn edrych ar eich ymwybyddiaeth o ddarpar ddefnyddwyr a grwpiau sydd ddim yn defnyddio'ch amgueddfa ar hyn o bryd

8.2 Defnyddio gwybodaeth er mwyn asesu anghenion eich defnyddwyr

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
8.2 Defnyddio gwybodaeth er mwyn asesu anghenion eich defnyddwyr	Mae dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth am eich defnyddwyr yn helpu i gynllunio gweithgareddau a rhaglenni'r dyfodol.	Dylai fod gennych chi brosesau ar waith i ymateb i sylwadau'r rhai sy'n defnyddio'ch amgueddfa a'r rhai sydd ddim yn y tymor byr a'r hirdymor gan ddadansoddi a gwerthuso'r rhain i gynllunio gwelliannau i'ch gwasanaethau. Bydd gofyn i chi gadarnhau bod gennych chi brosesau ar waith. Bydd angen i chi ddangos sut mae'ch dadansoddi a gwerthuso yn helpu i lywio blaengynllunio gan gyfeirio at adran berthnasol eich blaengynllun neu gynllun busnes.

Amgueddfeydd annibynnol – mathau 1-2

Byddwn yn disgwyl i chi werthuso profiad defnyddwyr o'r gwasanaethau rydych chi'n eu cynnig a dod i wybod am unrhyw beth sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan o bosibl.

Dylech ddefnyddio'r canlyniadau i ddatblygu a gwella'ch gwasanaethau. Mae'n debygol iawn y bydd cyfeiriad at hyn yn eich blaengynllun neu gynllun busnes.

Amgueddfeydd annibynnol – math 3

Amgueddfeydd awdurdod lleol – mathau 1-3

Amgueddfeydd prifysgol – mathau 1-3

Amgueddfeydd cenedlaethol

Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw

Er mwyn gwerthuso'ch gweithgarwch yn ymwneud â phrofiadau ymwelwyr/defnyddwyr, dylech gynnwys amrywiaeth o offerynnau dadansoddi ac ymgorffori cymysgedd o ddulliau meintiol ac ansoddol.

Dylech ddefnyddio'r canlyniadau i ddatblygu a gwella'ch gwasanaethau. Mae'n debygol iawn y bydd cyfeiriad at hyn yn eich blaengynllun neu gynllun busnes.

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn edrych ar sut rydych chi'n gwerthuso ac yn dadansoddi gwybodaeth a data a gasglwyd a sut mae'n cael ei ddefnyddio i lywio gwaith cynllunio yn y dyfodol
- Byddwn yn gwirio bod y dadansoddi a gwerthuso yn ddigon manwl ar gyfer maint eich amgueddfa a'r math o amgueddfa yw hi

8.3 Cynllun i ddatblygu'ch ystod o ddefnyddwyr


Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
8.3 Cynllun i ddatblygu'ch ystod o ddefnyddwyr	Mae dwyn popeth ynghyd mewn cynllun i ddatblygu'ch ystod o ddefnyddwyr yn eich helpu i aros yn gynaliadwy a pherthnasol fel sefydliad, ac ymateb i adborth defnyddwyr.	Dylech ddefnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi'i chasglu a'i gwerthuso i lywio datblygiad cynlluniau i ehangu ystod y defnyddwyr a chynyddu niferoedd lle bo hynny'n ymarferol. Gall y cynlluniau hyn gael eu cynnwys yn eich blaengynllun/cynllun busnes neu mewn cynlluniau strategol ehangach, er enghraifft cynllun datblygu cynulleidfa. Bydd angen i chi gyflwyno'ch cynllun neu ddangos ble mae'ch cynlluniau i ehangu ystod y defnyddwyr yn perthyn gan gyfeirio at adran berthnasol eich blaengynllun neu gynllun busnes a/neu ddogfennau cynllunio strategol perthnasol eraill.

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn edrych i weld pa gamau rydych chi wedi'u cymryd i ehangu cynnig neu ddarpariaeth yr amgueddfa i bobl sy'n ei defnyddio a'r rhai sydd ddim ar hyn o bryd
- Byddwn yn chwilio am ddealltwriaeth o pam nad yw rhai darpar gynulleidfaoedd yn defnyddio'r amgueddfa a pha gynlluniau sydd gennych i ddileu rhwystrau i gymryd rhan
- Byddwn yn edrych ar sut rydych chi'n mesur llwyddiant eich cynlluniau i gynyddu cyfranogiad

9 Cynnwys eich defnyddwyr, a gwella eu profiadau

I fodloni'r safon, byddwch angen cyflwyno tystiolaeth bod gennych chi bob un o'r canlynol:



9.1 Darparu gweithgareddau dysgu a darganfod sy'n sbarduno, gan gynnwys arddangosfeydd a rhaglenni sy'n seiliedig ar eich casgliadau

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
9.1 Darparu gweithgareddau dysgu a darganfod sy'n sbarduno, gan gynnwys arddangosfeydd a rhaglenni sy'n seiliedig ar eich casgliadau	Bydd cael amrywiaeth o weithgareddau dysgu a darganfod yn sicrhau bod ystod eang o bobl yn gallu ymwneud â'ch casgliadau a rhaglenni.	Dylai fod gennych chi ddealltwriaeth glir o rôl dysgu ar gyfer defnyddwyr yn eich sefydliad a bod y rôl honno'n cael ei chyfathrebu'n glir i'ch staff a/neu wirfoddolwyr a'u bod yn ei deall. Byddwch yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar a difyr i ddysgwyr ac yn cefnogi dysgu mewn amryw o ffyrdd, er enghraifft, drwy sgysiau, cyhoeddiadau ac adnoddau dysgu. Dylech weithio gyda phartneriaid i hwyluso profiadau dysgu effeithiol, er enghraifft, grwpiau diddordeb arbennig, grwpiau cymunedol lleol, darparwyr addysg bellach neu addysg i oedolion. Bydd gofyn i chi gadarnhau pa weithgareddau rydych chi'n eu defnyddio i gefnogi dysgu ac ymgysylltu. Bydd angen i chi ddangos ble mae'ch cynlluniau ar gyfer dysgu ac ymgysylltu'n perthyn gan gyfeirio at adran berthnasol eich blaengynllun neu gynllun busnes. Gallai fod mewn dogfennau cynllunio eraill neu lenyddiaeth ategol. Os byddwch yn dewis cymryd rhan yn VAQAS, VAQAS Cymru, cynllun sicrhau ansawdd VisitScotland, cynlluniau Welcome Host neu debyg, gallech ddweud wrthym sut mae hyn yn helpu i lywio'r gwelliannau sydd gennych mewn golwg.

Amgueddfeydd annibynnol – math 1

Mae'ch gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu yn debygol o gynnwys rhai o'r canlynol:

- Rhaglen o ddarlithoedd neu sgysiau arbenigol
- Grwpiau, sy'n crwydro ar eu liwt eu hunain neu'n mynd ar deithiau tywys
- Cyfleoedd dysgu y mae pobl yn eu cwblhau ar eu liwt eu hunain
- Partneriaethau i gefnogi dysgu. Ar lefel elfennol gallai hyn fod yn berthynas ag ysgol leol neu gysylltiadau â grwpiau cymunedol lleol.

Amgueddfeydd annibynnol – math 2

Mae'ch gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu yn debygol o gynnwys rhai o'r canlynol:

- Rhaglen addysg ffurfiol wedi'i chefnogi gan ddeunyddiau dysgu
- Rhaglen o ddarlithoedd neu sgysiau arbenigol
- Grwpiau, sy'n crwydro ar eu liwt eu hunain neu'n mynd ar deithiau tywys
- Cyfleoedd dysgu y mae pobl yn eu cwblhau ar eu liwt eu hunain
- Partneriaethau i gefnogi dysgu. Ar lefel elfennol gallai hyn fod yn berthynas ag ysgol leol neu gysylltiadau â grwpiau cymunedol lleol.

Amgueddfeydd awdurdod lleol – math 1

Mae'ch gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu yn debygol o gynnwys rhai o'r canlynol:

- Rhaglen o ddarlithoedd neu sgysiau arbenigol
- Grwpiau, sy'n crwydro ar eu liwt eu hunain neu'n mynd ar deithiau tywys
- Cyfleoedd dysgu y mae pobl yn eu cwblhau ar eu liwt eu hunain
- Partneriaethau i gefnogi dysgu. Ar lefel elfennol gallai hyn fod yn berthynas ag ysgol leol neu gysylltiadau â grwpiau cymunedol lleol.

Amgueddfeydd annibynnol – math 3

Amgueddfeydd awdurdod lleol – mathau 2-3

Bydd eich amgueddfa'n cefnogi grwpiau dysgu, darlithoedd a sgysiau gan arbenigwyr pwnc a chynnig dysgu ffurfiol ar gyfer llawer o grwpiau addysgol a defnyddwyr yn cynnwys dysgu anffurfiol.

Byddwn yn disgwyl gweld tystiolaeth o amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu ar gyfer grwpiau defnyddwyr gwahanol sy'n ymgorffori gwahanol ddulliau dysgu. Bydd gennych chi bartneriaethau sydd wedi ennill eu plwyf i gefnogi dysgu, sy'n berthnasol i'r amrywiaeth o gynigion dysgu yn yr amgueddfa.

Byddwch yn sicrhau bod gwybodaeth am ymweliadau ar gael i arweinwyr grwpiau.

Amgueddfeydd prifysgol – math 1

Bydd gennych gynnig dysgu ffurfiol yn y brifysgol gyda darlithoedd a sgysiau rheolaidd gan arbenigwyr pwnc sydd ar gael i bob darpar ddefnyddiwr ac nid staff a myfyrwyr y brifysgol yn unig.

Byddwch yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o ysgolion ac adrannau academiaidd, o fewn eich prifysgol a thu hwnt, a darparwyr dysgu, arbenigwyr pwnc ac ysgolion eraill i sicrhau bod y cyfleoedd i ddysgu mor eang â phosibl.

Amgueddfeydd prifysgol – mathau 2-3

Byddwn yn disgwyl gweld tystiolaeth o amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu ar gyfer gwahanol grwpiau defnyddwyr sy'n arfer gwahanol ddulliau dysgu. Byddwch yn cefnogi dysgu yn eich amgueddfa ar draws y gweithlu.

Bydd o leiaf un aelod staff sy'n cael ei dalu yn gyfrifol am ddysgu (gallai'r swydd gael ei rhannu). Dylai staff dysgu gael eu cynrychioli mewn timau uwch reoli ac mae aelodau perthnasol o'r gweithlu'n cael hyfforddiant rheolaidd. Dylai'r cyfnod sefydlu roi sylw i ddysgu yn yr amgueddfa.

Bydd ystod o bartneriaethau soffistigedig i gefnogi dysgu, sy'n berthnasol i'r arlwy o gynigion dysgu yn yr amgueddfa.

Byddwch yn sicrhau bod gwybodaeth am ymweliadau ar gael i arweinwyr grwpiau.

Amgueddfeydd cenedlaethol
Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw
Byddwn yn disgwyl gweld tystiolaeth o amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu ar gyfer gwahanol grwpiau defnyddwyr sy'n arfer gwahanol ddulliau dysgu. Byddwch yn cefnogi dysgu yn eich amgueddfa ar draws y gweithlu. Bydd nifer o staff dysgu yn eich amgueddfa, a byddant yn cael eu cynrychioli ymhlith uwch reolwyr ac mewn timau prosiect. Dylai hyfforddiant rheolaidd fod ar gael i'r aelodau hynny o'r gweithlu sydd ei angen, a dylai'ch proses sefydlu gefnogi dysgu yn yr amgueddfa. Bydd ystod o bartneriaethau soffistigedig i gefnogi dysgu, sy'n berthnasol i'r arlwy o gynigion dysgu yn yr amgueddfa. Byddwch yn sicrhau bod gwybodaeth am ymweliadau ar gael i arweinwyr grwpiau. Bydd angen i chi ddarparu copi o bolisi arddangos eich amgueddfa. Bydd angen i chi ddweud wrthym ni pa ymchwil a chyfleusterau sydd ar gael i ddefnyddwyr. Dylai amgueddfeydd cenedlaethol a rhai cenedlaethol mewn enw gyhoeddi ymchwil defnyddwyr mewn rhyw ffurf. Bydd angen i chi ddarparu dadansoddiad sy'n dangos faint o bobl sydd wedi defnyddio'ch cyfleusterau ymchwil yn y 12 mis diwethaf. Bydd angen i chi atodi rhestr o'r gwaith ysgolheigaidd mae'ch amgueddfa wedi ei gyhoeddi yn y tair blynedd diwethaf. Bydd angen i chi gyflwyno copi o'ch catalog cyhoeddedig fel atodiad neu ddolen we.

Am beth rydym ni'n chwilio
- Byddwn yn gwirio sut mae dysgu'n cael ei gefnogi gan eich amgueddfa ac a yw'n briodol i faint eich amgueddfa a chwmpas eich casgliadau - Byddwn yn edrych i weld a yw gweithgareddau dysgu yn adlewyrchu'ch diben a'ch casgliadau - Byddwn yn edrych i weld a yw adnoddau dysgu yn adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd y mae pobl yn dymuno dysgu ac a ydych chi'n ymgynghori ag ystod eang o bobl i ddatblygu cyfleoedd dysgu - Byddwn yn gwirio eich cyfryngau digidol a phrint i weld sut mae cyfleoedd dysgu'n cael eu hyrwyddo a pha wybodaeth sy'n cael ei rhoi i unigolion neu grwpiau er mwyn hwyluso'u hymweliad

9.2 Cyfathrebu'n effeithiol â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr trwy amrywiaeth o weithgareddau mynediad, marchnata a hyrwyddo

Pob amgueddfa		
I fodloni'r safon, byddwch angen	Pam mae hyn yn bwysig?	Pa dystiolaeth sydd ei hangen?
9.2 Cyfathrebu'n effeithiol â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr trwy amrywiaeth o weithgareddau mynediad, marchnata a hyrwyddo	Bydd defnyddio'r dulliau cyfathrebu gorau a mwyaf effeithiol diweddaraf gyda'ch defnyddwyr yn sicrhau eu bod yn gallu ymgysylltu'n dda â'ch amgueddfa. Mae rhoi gwybodaeth am fynediad ar-lein yn cynnwys gwybodaeth ymarferol ddefnyddiol yn helpu i sicrhau ymwelwyr eu bod yn gallu cael mynediad i'r amgueddfa a'u bod yn gwybod pa gyfleusterau i'w disgwyl.	Bydd amrywiaeth o ffyrdd hygyrch a phriodol i ddefnyddwyr gael gafael ar wybodaeth am eich gwasanaethau, mewn cyfryngau print a thrwy adnoddau ar-lein fel gwefan. Dylech gyhoeddi gwybodaeth am leoliad, sut mae cyrraedd yr amgueddfa, amseroedd agor, cyfleusterau a gwasanaethau yn cynnwys manylion arddangosfeydd a rhaglenni sydd ymlaen ar y pryd a mynediad i gasgliadau. Dylai'r wybodaeth a rowch gynnwys pa ddarpariaeth rydych chi wedi'i gwneud ar gyfer defnyddwyr ag anghenion ychwanegol, er enghraifft, mynediad lifft neu'r defnydd o ieithoedd heblaw Saesneg. Bydd gofyn i chi gadarnhau pa wybodaeth rydych chi'n ei darparu gan gyfeirio at gyfryngau print ac ar-lein. Bydd gofyn i chi lanlwytho dogfennau ategol neu roi dolenni i dudalennau perthnasol ar eich gwefan yn yr adran hon. Os oes gennych chi gynllun marchnata neu gyfathrebu, gallwch gynnwys hwnnw os hoffech chi. Gall enghreifftiau eraill gynnwys taflenni neu bosteri i ddangos eich deunydd hyrwyddo i ni.

Amgueddfeydd cenedlaethol

Amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw

Bydd angen i chi ddweud wrthym sut rydych chi'n sicrhau bod ansawdd eich cyfleusterau yn briodol i faint a graddfa'ch amgueddfa ac yn adlewyrchu'ch defnydd o enw cenedlaethol.

Am beth rydym ni'n chwilio

- Byddwn yn gofyn am wybodaeth am eich trefniadau agor i wirio bod eich amgueddfa'n safle/gofod/adeilad ffisegol sydd ar agor yn rheolaidd a bod modd cyrchu'r casgliad am o leiaf 20 diwrnod y flwyddyn
- Byddwn yn gwirio pa wybodaeth gyhoeddedig rydych chi'n ei darparu ar-lein ac mewn cyfryngau print
- Byddwn yn edrych i weld a ydych chi'n darparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch yn cynnwys ieithoedd heblaw Saesneg ac a yw'ch gwefan yn bodloni fformatau hygyrchedd safonol
- Byddwn yn gwirio eich bod chi wedi cyhoeddi gwybodaeth am fynediad ymwelwyr
- Byddwn yn gwirio bod cynnwys eich gwefan yn gyfredol
- Mewn achosion lle mae cyfyngiadau ar waith, byddwn yn edrych i weld eich bod chi wedi gwneud trefniadau amgen fel y gall defnyddwyr gyrchu casgliadau'r amgueddfa
- Byddwn yn gwirio a oes gennych chi rif ffôn/cyfeiriad e-bost penodol ar gyfer ymholiadau penodol
- Byddwn yn edrych i weld a ydych chi'n defnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu i gyrraedd gwahanol grwpiau o ddarpar ddefnyddwyr
- Lle bo'n berthnasol, byddwn yn edrych i weld a yw'ch enw yn briodol i faint a graddfa'ch amgueddfa ac yn adlewyrchu ansawdd eich cyfleusterau yn erbyn amgueddfeydd cenedlaethol neu genedlaethol mewn enw eraill

Ar ddiwedd y cais ar-lein neu'r ffurflen ymgeisio, bydd cyfle i chi rannu unrhyw lwyddiannau o bwys sydd wedi dod i'ch rhan yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn helpu'r aseswr i dynnu sylw'r panel dyfarnu at unrhyw lwyddiannau allweddol.

Sut mae'ch cais yn cael ei asesu

Ymgeiswyr newydd

Os ydych chi'n ymgeisio am Achrediad am y tro cyntaf, bydd angen i chi gyflwyno cais o fewn y cyfnod Gweithio Tuag At Achrediad o dair blynedd sy'n cael ei amlinellu yn eich llythyr cadarnhad o gymhwysedd.

Byddwn yn asesu'ch cais am Achrediad yn erbyn y Safon Achredu, yn cynnwys ymweliad safle.

Os yw'ch amgueddfa'n bodloni'r safon, bydd asesiad o'ch cais yn mynd gerbron panel Achredu i gael penderfyniad dyfarnu. Os mai dyma'ch cais cyntaf am Achrediad, bydd angen i chi ddangos eich bod wedi bodloni gofynion y safon yn llawn. Dim ond Achrediad Llawn sydd ar gael i ymgeiswyr newydd. Nid yw statws Achrediad Amodol ar gael fel canlyniad dyfarniad.

Os nad ydych chi wedi cyrraedd y safon, bydd eich aseswr yn rhoi adborth i chi. Bydd yn amlinellu pa ofynion nad ydych chi wedi eu cyflawni. Bydd angen i chi weithio ar y rhain yn gyntaf os ydych chi eisiau parhau o hyd. Yn dibynnu ar faint o waith sydd angen i chi ei wneud, byddwn yn penderfynu a oes angen i chi ddechrau eto gyda chais newydd. Os nad oeddem yn gallu parhau â'ch cais, byddwn yn egluro pam ac yn rhoi canllawiau clir a chefnogol i chi ar yr hyn sydd angen i chi ei wneud i gyflawni Achrediad Llawn.

Os ydych chi'n ymroi o hyd i gyflawni'r Achrediad ac yn gallu ymateb i adborth yr aseswr, gallwch gyflwyno cais diwygiedig unrhyw bryd yn ystod eich cyfnod Gweithio Tuag At Achrediad.

Ffurflenni'r Achrediad

Ar ôl i'ch amgueddfa gael Achrediad, bydd angen i chi roi tystiolaeth bod yr amgueddfa'n parhau i gyrraedd y safon. Adroddiad Achrediad yw'r enw ar hyn. Mae'n rhoi cyfle i chi adolygu'r wybodaeth rydych chi wedi'i hanfon atom a dweud wrthym am unrhyw newidiadau rydych chi wedi'u gwneud.

Y cylch ar gyfer adroddiadau yw bob pum mlynedd. Gallwch weld pryd mae angen i chi

gyflwyno'ch adroddiad nesaf drwy edrych ar yr amserlen adroddiadau Achrediad a gyhoeddir gan eich sefydliad asesu. Byddwch yn cael llythyr gan eich sefydliad asesu yn eich gwahodd i wneud adroddiad chwe mis cyn y dyddiad cau ar gyfer ei gyflwyno.

Wrth i chi nesáu at eich dyddiad adolygu ar gyfer adroddiad Achredu, bydd angen i chi wneud yn siŵr bod eich polisiau a'ch cynlluniau yn gyfredol ac yn cydymffurfio â'r Safon Achredu a'ch bod wedi rhoi diweddariadau i ni am unrhyw feysydd i'w datblygu rydych chi wedi'u derbyn. Bydd y meysydd i'w datblygu hyn yn cael eu nodi yn eich llythyr penderfyniad blaenorol ac yn y llythyr gwahoddiad. Os oes unrhyw weithgareddau wedi cael eu gohirio, eu canslo neu eu diwygio, rhowch wybod i ni mewn diweddariad byr ar gynydd.

Dyddiadau cau ffurflenni

Mae'ch sefydliad asesu wedi cyhoeddi amserlen adroddiadau felly edrychwch ar-lein am ddyddiad eich gwahoddiad a'r dyddiad cau ar gyfer dychwelyd adroddiad. Gwyddom fod llawer yn gallu newid ers eich adroddiad diwethaf felly os ydych chi'n amau y byddwch chi'n cael trafferth dychwelyd eich adroddiad yn brydlon, cysylltwch â ni mewn da bryd cyn y dyddiad cau fel y gallwn edrych ar ddewisiadau eraill ar eich cyfer.

Byddwn yn awgrymu opsiynau, yn cytuno ar gamau nesaf gyda chi ac yn cadarnhau unrhyw estyniad sy'n cael ei gytuno yn ysgrifenedig. Os ydych chi wedi gohirio ond eich bod dal ddim yn gallu cyflwyno adroddiad, byddwn yn gofyn am wybodaeth elfennol a byddwn yn awgrymu newid y dyfarniad i Achrediad Amodol yn ôl pob tebyg. Ar ddiwedd hyn byddwn yn disgwyl i chi gyflwyno adroddiad llawn o hyd.

Os na fyddwch yn cyflwyno adroddiad erbyn y dyddiad cau a gytunwyd ac nad ydym yn clywed gennyh, gallwn newid neu ddileu'ch statws Achrededig.

Y broses asesu

Ar ôl i chi gyflwyno'ch cais (neu adroddiad):

- Bydd eich aseswr yn cynnal asesiad desg cychwynnol, a allai gynnwys ceisiadau pellach am wybodaeth ychwanegol
- Gallai gynnwys y dogfennau hynny sydd ddim yn cael eu lanlwytho fel rhan o'r ffurflen ar-lein ond sydd ar gael ar gais. Hefyd gall gynnwys rhagor o ddogfennaeth yn ymwneud â gofynion statudol neu gyfreithiol, er enghraifft, polisïau diogelu
- Wrth gynnal eich asesiad, gall eich aseswr dynnu ar wybodaeth, neu gynnal trafodaeth gyda swyddogion cynghori perthnasol eraill i geisio'u barn
- Os ydych chi'n ymgeisydd newydd, byddwch yn cael ffurflen ymweliad safle gennym fel rhan o'ch asesiad. Gallwn ymweld â'ch safle fel rhan o'r asesiad lle mae newid arwyddocaol, fel datblygiad mawr, wedi digwydd yn yr amgueddfa ers yr asesiad llawn diwethaf, neu os nad yw'r amgueddfa wedi cael ymweliad safle am nifer o flynyddoedd. Mae pob sefydliad asesu'n rheoli ei raglen ei hun o ymweliadau

- Rydym ni'n ymweld â sampl o amgueddfeydd sy'n cyflwyno adroddiadau hefyd. Mae mwy o wybodaeth am gynllunio ar gyfer ymweliad ar gael ar wefan y sefydliad sy'n asesu'ch Achrediad
- Ar ôl i ni gwblhau'ch asesiad, bydd yn cael ei anfon at y Cymedrolwr Asesu yn Arts Council England er mwyn gwirio am gysondeb ac mae hyn yn rhan o'n proses sicrhau ansawdd. Gallwn ofyn am wybodaeth ychwanegol yn ystod y cam hwn. Dyma'r gwiriad terfynol ac mae'n cadarnhau bod eich amgueddfa wedi'i chynnwys ar amserlen panel dyfarnu
- Gallwn gymryd hyd at chwe mis i gwblhau'r broses asesu, yn dibynnu ar a ydych chi wedi cyflwyno'r holl ddogfennau a thystiolaeth sydd eu hangen arnom. Y cam olaf yw ystyried eich asesiad mewn panel Achredu, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar ddyfarniad eich amgueddfa

Pa fathau o asesiadau sydd yna?

Math o asesiad	Beth mae hyn yn golygu?
Holiadur cymhwysedd	Er mwyn gweld a yw’ch amgueddfa’n gymwys i wneud cais. Os caiff ei gadarnhau byddwch yn Gweithio Tuag At Achrediad yn ffurfiol.
Ceisiadau newydd	Rydych chi’n gwneud cais i’r Cynllun Achredu am y tro cyntaf, ar ôl cyfnod o beidio â chymryd rhan neu ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd yn dilyn penderfyniad dyfarnu i ddileu ac eithrio am ddiffyg cydymffurfiaeth bwriadol. Er mwyn penderfynu a ddylid rhoi statws Achrediad i’ch sefydliad.
Adroddiadau Achredu	Rydym yn gofyn i bob amgueddfa Achrededig roi diweddariad i ni, bob pum mlynedd o leiaf, am sut maent yn cyflawni’r Safon Achredu. Y rheswm rydym yn gofyn am ddiweddariad yw bod Achrediad yn safon wedi’i chytuno, sy’n arddangos sut mae amgueddfeydd yn rheoli eu casgliadau yn gywir, yn ymgysylltu ag ymwelwyr, ac yn cael eu llywodraethu’n briodol. Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth hon i wirio a ydych chi’n parhau i gyflawni diben y Cynllun Achredu a gofynion y Safon. Byddwn yn cadarnhau a allwch chi gadw’ch dyfarniad Achredu ar ôl cyfarfod y panel penderfynu.
Asesiadau adolygu amodol	Rydych chi wedi cael dyfarniad Amodol ac mae gennych gamau gweithredu y mae angen i chi roi sylw iddynt o fewn amserlen benodol. Pan fyddwch wedi cwblhau’r rhain byddwn yn asesu eto ac yn dychwelyd at banel Achredu i wneud penderfyniad dyfarnu.
Adolygiadau newid sylfaenol	Rydych chi yng nghanol neu’n disgwyl newidiadau sylweddol a allai effeithio ar gydymffurfiaeth eich amgueddfa â’r safon. Bydd gofyn i chi roi diweddariad a byddwn yn defnyddio’r wybodaeth hon i benderfynu a oes angen i ni ddychwelyd at banel Achredu er mwyn gwneud penderfyniad dyfarnu.
Adolygiadau cydymffurfiaeth	Er mwyn penderfynu os nad ydych chi’n cyflawni diben y Safon Achredu, yn bodloni gofynion y safon neu’n parhau i fodloni telerau ac amodau’r Cynllun gydol gweddill dyfarniad Achredu’r sefydliad.

Pwy sy'n gwneud y penderfyniad dyfarnu?

Mae Pwyllgor Achredu Amgueddfeydd y DU yn gwneud pob penderfyniad i ddyfarnu a dileu statws Achredu. Mae is-grŵp o'r Pwyllgor yn ffurfio panel i wneud yr holl benderfyniadau ar geisiadau ac adroddiadau. Caiff y Pwyllgor Achredu Amgueddfeydd ei recriwtio a'i ddethol gan Bartneriaeth Achredu'r DU a'i benodi'n ffurfiol gan Arts Council England. Pwrpas y Pwyllgor yw goruchwyllo bod y Cynllun Achredu

ar gyfer amgueddfeydd ac orielau yn y DU yn cael ei weithredu'n effeithiol ac yn gyson. Mae'r Pwyllgor yn cynrychioli sector amgueddfeydd y DU wrth oruchwyllo'r Cynllun Achredu ar gyfer amgueddfeydd ac orielau.

Nid yw penderfyniadau dyfarnu'n cael eu gwneud gan eich aseswr unigol neu gan y cymedrolwr Achredu yn ystod y cam sicrhau ansawdd.

Beth yw'r penderfyniadau gall paneli eu gwneud?

Canlyniad dyfarnu	Ystyr hyn	Senario
Achrediad Llawn	Rydych chi wedi dangos sut rydych chi'n bodloni'r Safon Achredu a'ch bod yn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w datblygu	
Achrediad Amodol	Rydych chi wedi bodloni'r rhan fwyaf o'r Safon Achredu ond nid ydych chi wedi llwyddo i fodloni'r gofynion i gyd. Rydych chi'n gweithio ar y camau gweithredu y mae'n ofynnol i chi eu cwblhau o fewn amserlen benodol. O gwblhau'r camau gweithredu hyn yn foddhaol, byddwn yn dychwelyd i banel Achredu gydag argymhelliad i chi gael statws Achrediad Llawn Nid yw'r penderfyniad dyfarnu hwn ar gael i amgueddfeydd sy'n gwneud cais i'r Cynllun am y tro cyntaf Os oes gan eich amgueddfa Achrediad Amodol, mae gennych chi ddyfarniad Achredu	Os ydych chi'n cynnal gwaith ailddatblygu mawr neu'n mynd trwy newid sefydliadol, mae hwn yn ganlyniad cyffredin

Canlyniad dyfarnu	Canlyniad dyfarnu	Senario
Gohirio penderfyniad	Mae'r panel wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol cyn gwneud penderfyniad dyfarnu	
Dileu	Nid ydych chi'n amgueddfa Achrededig mwyach. Os bydd amgueddfa'n cael ei dileu, byddwn yn eich hysbysu am y rheswm ac yn eich cyfeirio at gymorth a chanllawiau priodol Nid yw cael eich dileu o'r cynllun yr un fath â chael eich dileu a'ch eithrio	Mae yna nifer o resymau pam y gallai fod yn amhriodol i chi barhau i gymryd rhan yn y cynllun: cau: mae'r casgliad wedi cael ei drosglwyddo i rywle arall newid swyddogaeth: ddim yn gymwys i gymryd rhan, ddim yn amgueddfa mwyach trychineb difrifol: er enghraifft, tân trychinebus - ddim mewn sefyllfa i barhau fel amgueddfa mwyach uno: wedi cyfuno gyda sefydliad arall sy'n cyflawni amcanion tebyg ac sy'n cymryd rhan yn y cynllun eisoes capasiti: nid ydych chi'n gallu bodloni'r safon ac nid ydych wedi cymryd camau i gyrraedd y statws llawn gadael: rydych chi wedi dewis gadael yn wirfoddol felly rydych chi'n cael eich dileu o'r cynllun yn unol â'ch cyfarwyddiadau eich hun methu â chyflwyno adroddiad: nid ydych wedi cyflwyno adroddiad i'r sefydliad asesu'n brydlon gyda gwybodaeth roeddem yn gofyn yn rhesymol amdani am eich sefydliad mewn perthynas â'r Achrediad methu â chydymffurfio â thelerau ac amodau: nid ydych wedi bodloni telerau ac amodau'r Cynllun Achredu ar gyfer Amgueddfeydd ac Oriolau yn y Deyrnas Unedig: Safon Achredu

Canlyniad dyfarnu	Canlyniad dyfarnu	Senario
Dileu ac eithrio yn sgil diffyg cydymffurfiaeth bwriadol	Mae'r penderfyniad hwn yn gymwys pan fydd amgueddfa neu ei chorff llywodraethu wedi gwneud penderfyniad neu gymryd camau di-droi'n-ôl sy'n mynd yn groes i sail foesegol y cynllun drwy dorri'r safon. Bydd panel Achredu wedi cytuno ar y statws hwn ar ôl cael argymhelliad i ddileu ac eithrio gan aseswr Ni fydd amgueddfeydd wedi'u heithrio yn gymwys am Achrediad am bum mlynedd o leiaf o'r dyddiad y mae'r panel yn gwneud y penderfyniad i'w heithrio Gall amgueddfeydd sydd wedi'u heithrio wneud cais am ystyriaeth i'r sefydliadau asesu perthnasol bum mlynedd ar ôl iddynt gael eu dileu am beidio â chydymffurfio Nid yw amgueddfeydd sy'n parhau i fynd ati'n fwriadol i weithredu'n groes i ofyniad neu ofynion y cynllun yn gymwys i ailymgeisio. Wrth ymgeisio unwaith eto, bydd angen i chi ddangos eich bod wedi cydymffurfio yn ystod y bum mlynedd flaenorol a'ch bod wedi mynd i'r afael â'r problemau diffyg cydymffurfio blaenorol drwy bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau diwygiedig sy'n cydymffurfio	Rydych chi wedi ymddwyn yn anfoesol, yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i werthu casgliadau'r amgueddfa yn anfoesegol

Faint mae'n cymryd?

Ein targed ar gyfer y broses asesu yw chwe mis o ddyddiad cyflwyno'ch cais. Os nad oes gennym gais cyflawn a phopeth sydd ei angen arnom ar gyfer ein hasesiad, gallai gymryd yn hirach. Weithiau byddwn eisïau dod allan am ymweliad safle hefyd felly byddwn yn cytuno ar ddyddiadau ar gyfer hyn. Byddwn yn rhoi'ch achos i banel priodol a bydd eich aseswr yn rhoi gwybod i chi pan fydd popeth yn barod ac yn cadarnhau'r

dyddiad hwn gyda chi.

Bydd y dyddiad y daw'r dyfarniad i rym bythefnos ar ôl dyddiad y panel dyfarnu gan ei fod yn cysylltu â dyddiad cyhoeddi'r ystadegau swyddogol. Byddwn yn eich hysbysu'n ffurfiol am benderfyniad y panel cyn gynted ag y gallwn ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu cymeradwyo, ac o fewn pythefnos i gyfarfod y panel ar yr hwyraf.

Eich llythyr dyfarnu

Mae'ch llythyr sy'n cynnwys canlyniad y dyfarniad yn disgrifio unrhyw argymhellion sy'n cael eu cytuno gan y panel penderfynu. Os yw'r panel wedi dyfarnu Achrediad Llawn, byddwn yn darparu tystysgrif dyfarnu.

Byddwch yn cael copi caled o'n telerau ac amodau ar gyfer y dyfarniad hefyd a bydd angen i chi gadarnhau eich bod yn eu derbyn.

Faint mae'r dyfarniad yn para?

Bydd eich dyfarniad Achrediad Llawn yn para am bum mlynedd, ac yna byddwch yn cael gwahoddiad i gyflwyno adroddiad asesu.

Nid yw amgueddfeydd ag Achrediad Amodol yn rhan o'r cylch adrodd sydd wedi'i gyhoeddi gan fod angen iddynt ymateb i'r camau gweithredu gofynnol a nodwyd erbyn amserlen y cytunwyd arni (amserlen fyrdymor o 12 mis gan amlaf).

Mae Achrediad amodol yn para 12 mis i ddechrau. Os ydym wedi pennu camau gweithredu gofynnol, mae hyn yn golygu bod gennych chi feysydd sy'n dal i fod angen sylw cyn y gallwch chi gael Achrediad Llawn. Camau gweithredu â blaenoriaeth yw'r rhain sydd â therfynau amser byrrach.

Os gallwch chi fynd i'r afael ag unrhyw gamau gweithredu sydd eto i'w gwneud yn gynt na'r 12 mis llawn, mae hynny'n iawn a gallwch gyflwyno'ch cais unrhyw bryd.

Gall statws amodol gael ei ail-ddyfarnu ar ôl y 12 mis cyntaf ar gyfer yr un mater, fel ailddatblygiad ffisegol neu newid llywodraethu mawr. Gallai fod sefyllfaoedd hefyd lle mae'r amgueddfa'n datrys y broblem wreiddiol a arweiniodd at y dyfarniad hwnnw, dim ond i broblem newydd a gwahanol ddod i'r amlwg mewn asesiad. O dan yr amgylchiadau hyn, gall yr amgueddfa gael dyfarniad Achrediad Amodol am 12 mis unwaith eto oherwydd y broblem newydd a gwahanol hon.

Hyrwyddo'ch dyfarniad

Ar ôl i chi gael eich llythyr canlyniad yn eich hysbysu am eich dyfarniad Achredu, chi sydd i benderfynu sut mae rhoi cyhoeddusrwydd i'ch llwyddiant. Rydym ni wrth ein bodd yn clywed am eich llwyddiannau felly cofiwch rannu'ch ffotograffau, erthyglau papur newydd a negeseuon trydar os hoffech chi.

Mae copïau o logo'r Achrediad (yn cynnwys logos Cymraeg, Saesneg a Gaeleg yr Alban)

a chanllawiau ar frand y Cynllun Achredu Amgueddfeydd ar gael gan eich corff dyfarnu i'w defnyddio ar eich deunydd cyhoeddusrwydd a'ch gwefan.

Rydym yn cyhoeddi rhestr wedi'i diweddarau o amgueddfeydd Achrededig ac adroddiad ystadegol ar ôl pob panel ar wefan yr Arts Council.

Beth i'w wneud os ydych chi'n mynd trwy newid sylweddol

Os ydych chi yng nghanol neu'n disgwyl unrhyw newidiadau sylweddol a allai effeithio ar gydymffurfiaeth eich amgueddfa â'r safon, bydd angen i chi hysbysu'r sefydliad asesu perthnasol. Cysylltwch â ni'n brydlon a pheidiwch aros nes ei bod hi'n bryd i chi gyflwyno'ch adroddiad nesaf. Rydym ni yma i'ch helpu a'ch cynghori ar y camau nesaf felly peidiwch â bod ofn cysylltu â ni.

Dywedwch wrthym am unrhyw ffactorau sylweddol a allai effeithio ar wasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r mathau o sefyllfaoedd a allai gael eu hystyried yn newidiadau sylweddol (nid yw'r rhestr yn cynnwys pob un dim) yn cynnwys:

- Newidiadau/heriau byrdymor heb eu cynllunio gyda'r gweithlu
- Yr amgueddfa'n cau yn annisgwyl
- Ailstrwythuro'r gweithlu yn fwy hirdymor
- Datblygiad cyfalaf o bwys
- Newidiadau llywodraethu
- Newid i statws, perchnogaeth neu gyfansoddiad eich sefydliad

- Cynnig i werthu eitemau o'r casgliad
- Rydych yn debygol o fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, diddymu eich hun, mynd i law'r derbynnnydd, terfynu neu, yn yr Alban, cael ystâd eich sefydliadau wedi'i difeddiannu

Yn y sefyllfa hon byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth ychwanegol fel adroddiad cryno gan amlaf. Gallwn gynnwys y wybodaeth hon yn eich adroddiad nesaf os yw ar y gorwel neu gallwn roi'ch achos gerbron y panel yn gynt os oes angen i ni gynnal adolygiad 'newid sylweddol' dros dro.

Yn aml byddwn yn argymhell newid i Achrediad Amodol wrth i chi weithio drwy'r newid. Yn gyffredinol, ein nod yw sicrhau'r canlyniad gorau posib i chi a'ch cynorthwyo gydol y cynllun. Rydym yn hyblyg a gallwn eich cyfeirio at y camau nesaf, canllawiau priodol a chymorth os ydych chi'n cael anawsterau neu os nad ydych chi'n siŵr beth i'w wneud.

Byddwn yn gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol fel rheol:

- Adroddiad cryno ar y sefyllfa
- Copi o'ch blaengynllun cyfredol (neu gadarnhad o'r sefyllfa)
- Copi o'ch polisi datblygu casgliadau cyfredol (neu gadarnhad o'r sefyllfa)
- Y dyddiad pan gafodd eich cynllun argyfwng ei adolygu diwethaf
- Dyddiad eich adolygiad diogelwch diweddaraf

Bydd amgueddfeydd sy'n cael eu hailddatblygu ac sydd ar gau i'r cyhoedd am fwy na chwe mis yn cael eu hadolygu fel asesiad newid sylweddol, yn cael eu hystyried mewn panel dyfarnu ac yn cael statws Achrediad Amodol fel rheol.

Gwaredu am resymau ariannol

Mae gwaredu eitemau am resymau ariannol yn cael ei ystyried yn newid sylweddol ar gyfer amgueddfa Achrededig oherwydd bod gwerthu amhriodol yn peryglu enw da'r amgueddfa unigol, y sector ehangach a hefyd y cynllun yn ei gyfanrwydd.

Dylai amgueddfeydd achrededig sy'n ystyried gwerthu eitemau am resymau ariannol, neu waredu drwy werthu a allai gael ei weld fel

rhywbeth sy'n cael ei wneud am resymau ariannol, ddilyn y broses a nodir yn eu polisi datblygu casgliadau cymeradwy sy'n cydymffurfio â'r Achrediad a phhecyn cymorth 2014 Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar gyfer gwaredu. Os yw corff llywodraethu'ch amgueddfa yn ystyried gwaredu eitemau am resymau ariannol dylech gael gyngor gan y sefydliad asesu perthnasol.

Amgueddfeydd sy'n cael eu lletya

Os yw amgueddfa sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Achredu neu sy'n dymuno gwneud cais iddo yn cael ei lletya ar safle amgueddfa arall, ac os oes cytundeb ar gyfer rhannu gwasanaethau a/neu gyfrifoldebau, mae disgwyl i'r amgueddfa letya fod yn rhan o'r

cynllun a meddu ar y dyfarniad Achredu. Os yw panel yn penderfynu dileu'r amgueddfa letya o'r cynllun, yna byddem am wirio hefyd fod y sefydliad sy'n cael ei letya yn parhau i gydymffurfio â'r cynllun.

Beth i'w wneud os nad ydych am gymryd rhan mwyach

Os ydych chi'n penderfynu tynnu'n ôl o'r cynllun, cysylltwch â'ch sefydliad asesu ar gyfer yr Achrediad. Gallwn gynnig help a chynghor ac rydym yn croesawu eich adborth. Os byddwch chi'n dewis gadael, byddwn yn gofyn i chi am gadarnhad ysgrifenedig o'ch penderfyniad sy'n dangos bod eich corff llywodraethu wedi cymeradwyo'r cais hwn. Byddwn yn gofyn am ddiweddariad byr ar y sefyllfa i egluro pam eich bod wedi penderfynu gadael. Gadewch i ni wybod a oes unrhyw risgiau i'ch casgliad neu safle. Os yw'ch corff llywodraethu yn rheoli mwy nag un amgueddfa Achrededig ac yn cau

safle unigol, byddwn yn disgwyl i'r casgliadau o'r safle sy'n cau barhau i gael eu rheoli a derbyn gofal yn unol â'r safon. Byddwn yn cyflwyno'ch cais gerbron panel i ddileu'ch amgueddfa o'r cynllun yn ffurfiol a byddwn yn cadarnhau ar bapur bod hyn wedi'i wneud. Os byddwch chi'n penderfynu maes o law bod gennych chi ddiddordeb mewn gwneud cais am Achrediad eto, bydd angen i chi ddechrau drwy gwblhau holiadur cymhwysedd.

Telerau ac amodau

Mae'n bwysig bod amgueddfeydd yn gallu cynnal y Safon Achredu yn ystod oes y dyfarniad a'ch bod yn ymwybodol o'r angen i gydymffurfio â thelerau ac amodau'r Cynllun Achredu ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau yn y Deyrnas Unedig: Safon Achredu. Rhaid i chi gysylltu â'ch sefydliad asesu ar unwaith os oes unrhyw un o'r sefyllfaoedd a ddisgrifir yn y telerau ac amodau wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

Mae copïau o'r telerau ac amodau ar gyfer cymryd rhan yn y Cynllun yn ffurfio rhan o'r datganiad pan fyddwch yn lanlwytho'ch ffurflen gais neu ffurflen i'r system ar-lein. Byddwn ni hefyd yn anfon copi atoch gyda'ch tystysgrif dyfarniad a llythyr canlyniad y dyfarniad, a bydd angen i chi dderbyn hwn i gadarnhau'ch dyfarniad.

Adborth a chwynion

Rydym yn croesawu adborth fel y gallwn barhau i ddatblygu'r Cynllun Achredu a helpu gydag unrhyw anawsterau rydych chi'n dod ar eu traws. Anfonwch unrhyw sylwadau neu awgrymiadau i'r sefydliad sy'n asesu'ch Achrediad.

Os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon â'r gwasanaeth a gawsoch, mae yna weithdrefn

gwynion y gallwch ei defnyddio. Mae'n egluro'r weithdrefn ffurfiol ar gyfer ymdrin â chwynion a'r mathau o bethau y gallwch wneud cwyn ffurfiol yn eu cylch. Yn y lle cyntaf rydym yn argymhell cysylltu â'r partner priodol yn y wlad lle mae'ch amgueddfa wedi'i lleoli, i weld a oes modd ymdrin â'ch pryderon cyn gwneud cwyn ffurfiol.

Rhyddid gwybodaeth a diogelu data

Rydym wedi ymrwymo i fod mor agored â phosib. Mae hyn yn cynnwys bod yn glir ynghylch sut rydym yn cyrchu ceisiadau ac adroddiadau'r Achrediad ac yn penderfynu arnynt a sut byddwn yn defnyddio'ch ffurflen gais a dogfennau eraill rydych chi'n eu rhoi i ni.

Ni fyddwn yn rhyddhau unrhyw wybodaeth am geisiadau yn ystod y cyfnod asesu, gan y gallai hyn amharu ar y broses benderfynu. Gallwn rannu gwybodaeth gydag aseswyr allanol sy'n gweithredu ar ran y sefydliadau sy'n asesu'r Achrediad i'n helpu i asesu'ch cais yn ogystal â Mentoriaid Achredu,

darparwyr Datblygu Amgueddfa a Chynghorwyr Achredu fel y gallwn eich cyfeirio at gyngor a chymorth priodol yn ystod eich asesiad. Ar ôl i ni ddod i benderfyniad, byddwn yn eu hysbysu am ganlyniad eich cais ac, os yw'n briodol, pam na fu'n llwyddiannus.

Byddwn yn ychwanegu'ch amgueddfa at y rhestr sydd wedi'i chyhoeddi o'r holl ymgeiswyr llwyddiannus unwaith bydd y broses wedi'i chwblhau. I wybod mwy am sut byddwn yn defnyddio'ch data, cyfeiriwch at eich sefydliad asesu perthnasol.

Adolygu

Caiff y dogfennau canllaw eu hadolygu a'u hailgyhoeddi'n rheolaidd (yn flynyddol gan amlaf) i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol.



ACHREDU
AMGUEDDFEYDD

MUSEUM
ACCREDITATION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

